Estyn
Rhagoriaeth i bawb – Excellence for all
Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate
for Education and Training in Wales

# Gweithredu ar fwlio

## Adolygiad o effeithiolrwydd y camau a gymerir gan ysgolion i fynd i'r afael â bwlio ar sail nodweddion gwarchodedig disgyblion

## Mehefin 2014

**Diben Estyn yw arolygu ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Mae Estyn yn gyfrifol am arolygu**

- ysgolion a safleoedd meithrin a gynhelir gan, neu sy'n cael arian gan awdurdodau lleol (ALlau);
- ysgolion cynradd;
- ysgolion uwchradd;
- ysgolion arbennig;
- unedau cyfeirio disgyblion;
- ysgolion annibynnol;
- addysg bellach;
- colegau annibynnol arbenigol;
- dysgu oedolion yn y gymuned;
- gwasanaethau addysg awdurdodau lleol ar gyfer plant a phobl ifanc;
- addysg a hyfforddiant athrawon;
- Cymraeg i oedolion;
- dysgu yn y gwaith; a
- dysgu yn y sector cyfiawnder.

Mae Estyn hefyd:

- yn rhoi cyngor ar ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac eraill; ac
- yn cyhoeddi achosion o arfer dda yn seiliedig ar dystiolaeth arolygu.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

**© Hawlfraint y Goron 2014: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

| Cynnwys | Tudalen |
|---|---|


| | |
|---|---|
| **Cyflwyniad** | **1** |
| **Cefndir** | **1** |
| **Prif ganfyddiadau** | **4** |
| **Argymhellion** | **8** |
| **1 Profiadau disgyblion o fwlio** | **9** |
| **2 Ethos a gwerthoedd** | **13** |
| **3 Cwricwlwm** | **16** |
| **4 Polisïau a gweithdrefnau** | **18** |
| **5 Datblygiad ac agweddau staff** | **23** |
| **6 Trefniadau clwstwr a phrosesau pontio** | **26** |
| **7 Y gymuned ehangach** | **28** |
| **Atodiad 1 – Sail y dystiolaeth** | **33** |
| **Atodiad 2 – Rhestr wirio gwrth-fwlio** | **35** |
| **Atodiad 3 – Ymchwil a chyfeiriadau** | **38** |
| **Geirfa** | **41** |
| **Awdur yr adroddiad cylch gwaith a thîm yr arolwg** | **42** |

## Cyflwyniad

Cyhoeddir yr adroddiad hwn i ymateb i gais am gyngor gan Lywodraeth Cymru yn llythyr cylch gwaith blynyddol y Gweinidog i Estyn ar gyfer 2013-2014. Mae'r adroddiad yn archwilio effeithiolrwydd y camau a gymerir gan ysgolion i fynd i'r afael â bwlio, gan gyfeirio'n benodol at fwlio ar sail nodweddion gwarchodedig disgyblion (oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred, rhyw a chyfeiriadedd rhywiol).

Mae'r adroddiad yn cynnwys astudiaethau achos arfer orau sy'n egluro'r modd y mae ysgolion arfer orau yn delio â bwlio. Roedd disgyblion yn barod i rannu eu profiadau o fwlio â'r tîm, ond mae astudiaethau achos o brofiadau disgyblion wedi cael eu hysgrifennu mewn ffordd sy'n osgoi nodi disgyblion unigol.

Mae'r adroddiad wedi'i seilio ar dystiolaeth o ymweliadau â 21 o ysgolion, craffu ar ddogfennau a thystiolaeth o'r cylch arolygu presennol. Fe wnaeth saith ysgol arall ddarparu polisïau a chynlluniau gweithredu cydraddoldeb strategol ar gyfer craffu arnynt. Gweler Atodiad 1 i gael rhagor o fanylion am sail y dystiolaeth.

Mae'r adroddiad wedi'i fwriadu ar gyfer Llywodraeth Cymru, penaethiaid a staff mewn ysgolion, awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol. Gallai fod o ddiddordeb hefyd i athrawon dan hyfforddiant ac awdurdodau addysg esgobaethol eglwysi.

## Cefndir

### Deddf Cydraddoldeb 2010

Fe wnaeth Deddf Cydraddoldeb 2010 (y Ddeddf) ddisodli 116 o ddeddfau cydraddoldeb a gwrth-wahaniaethu gwahanol ag un Ddeddf. Daeth mwyafrif y Ddeddf i rym ar 1 Hydref 2010.

Dyma oedd y naw prif ddarn o ddeddfwriaeth a gyfunwyd yn y Ddeddf:

- Deddf Cyflogau Cyfartal 1970;
- Deddf Gwahaniaethu ar sail Rhyw 1975;
- Deddf Cysylltiadau Hiliol 1976;
- Deddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 1995;
- Rheoliadau Cydraddoldeb Cyflogaeth (Crefydd neu Gred) 2003;
- Rheoliadau Cydraddoldeb Cyflogaeth (Cyfeiriadedd Rhywiol) 2003;
- Rheoliadau Cydraddoldeb Cyflogaeth (Oedran) 2006;
- Deddf Cydraddoldeb 2006, Rhan 2; a
- Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb (Cyfeiriadedd Rhywiol) 2007.

Mae'r Ddeddf yn creu deddfwriaeth gwrth-wahaniaethu sy'n cynnwys y naw 'nodwedd warchodedig', sef:

- oedran;
- anabledd;
- ailbennu rhywedd;
- priodas a phartneriaeth sifil;
- beichiogrwydd a mamolaeth;
- hil;
- crefydd neu gred;
- rhyw; a
- chyfeiriadedd rhywiol.

Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol a chyrff cyhoeddus eraill, gan gynnwys ysgolion, roi ystyriaeth benodol i'r angen i:

- gael gwared ar wahaniaethu, aflonyddwch ac erledigaeth anghyfreithlon ac ymddygiad arall sy'n cael ei wahardd gan y Ddeddf;
- datblygu cyfle cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol a'r rhai nad ydynt yn ei rhannu; a
- meithrin cysylltiadau da rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig a'r rhai nad ydynt yn ei rhannu.

**Cynlluniau cydraddoldeb strategol ac amcanion cydraddoldeb**

Crëwyd dyletswydd cydraddoldeb gan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 ac mae'n disodli'r dyletswyddau cydraddoldeb o ran hil, anabledd a rhywedd.  Daeth y ddyletswydd i rym yn Ebrill 2011 ac mae'n cynnwys oedran, anabledd, rhywedd, ailbennu rhywedd, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred a chyfeiriadedd rhywiol.

Er mis Ebrill 2012, mae gan bob corff cyhoeddus, gan gynnwys awdurdodau lleol ac ysgolion, ddyletswydd o dan y Ddeddf i ddatblygu a chyhoeddi amcanion cydraddoldeb a Chynllun Cydraddoldeb Strategol.  Mae'r olaf yn disodli cynlluniau blaenorol, fel y ddyletswydd cydraddoldeb anabledd a'r polisi cydraddoldeb hiliol, er y gallai'r rhain ffurfio rhan o'r cynllun newydd.  Diben yr amcanion a'r cynllun yw galluogi cyflawni deilliannau cydraddoldeb mesuradwy a fydd yn gwella bywydau unigolion a chymunedau.

Dylai amcanion cydraddoldeb ysgol gysylltu â'i gwaith cyffredinol ar wella a chynhwysiant a gyda'i chynllun datblygu ysgol.  Os yw ysgol yn dewis peidio â chyhoeddi amcan cydraddoldeb sy'n ymdrin â phob un o'r nodweddion gwarchodedig, mae'n ofynnol iddi gyfiawnhau'r dewis hwn.  Er enghraifft, gallai cael un amcan i fynd i'r afael â bwlio ar sail hunaniaeth wneud mwy o synnwyr na chael pum amcan ar wahân i ddelio â bwlio gwrth-anabl, homoffobig, hiliol, crefyddol a thrawsffobig[1].

[1] Gweler yr eirfa

Mae'n ofynnol i awdurdodau lleol ac ysgolion ystyried pa wybodaeth sydd ganddynt, a pha wybodaeth arall fyddai angen iddynt ei chasglu er mwyn dangos eu bod yn cydymffurfio â'r ddyletswydd cydraddoldeb. Er enghraifft, dylai ysgolion archwilio a defnyddio unrhyw wybodaeth berthnasol am gyfrifiad ysgol, data perfformiad a holiaduron i ddisgyblion a rhieni. Yn ychwanegol, dylent ddefnyddio adnoddau cenedlaethol, fel arolygon poblogaeth blynyddol ac adroddiadau yn ymwneud â materion sy'n effeithio ar grwpiau gwarchodedig. Dylai ysgolion ddefnyddio'r wybodaeth hon i osod amcanion realistig ac asesu effaith eu cynlluniau cydraddoldeb strategol. Dylai awdurdod lleol ddefnyddio'i wybodaeth i greu darlun o anghenion cymunedau lleol y gellir eu rhannu yn ôl y nodweddion gwarchodedig.

## Bwlio

Yn yr adroddiad hwn, rydym yn defnyddio diffiniad Llywodraeth Cymru o fwlio sydd wedi'i nodi yn 'Parchu Eraill: Trosolwg Gwrth-fwlio (2011)'.

'Defnyddir sawl diffiniad o fwlio, ond mae'r rhan fwyaf o bobl yn ei ystyried yn weithred sy'n:

- fwriadol niweidiol (gan gynnwys ymddygiad ymosodol);
- digwydd yn aml dros gyfnod o amser, gan gydnabod y gall un digwyddiad yn unig achosi trawma i'r dysgwr a'i adael yn poeni y bydd yn digwydd eto; ac
- yn anodd i ddioddefwyr amddiffyn eu hunain yn ei erbyn.

Mae safbwyntiau dysgwyr unigol am yr hyn a olygir wrth fwlio hefyd yn elfen allweddol i'w hystyried. Mae llawer o wahanol fathau o fwlio, ond y tri phrif fath o fwlio yw:

- corfforol – bwrw, cicio, cymryd eiddo, aflonyddu rhywiol neu ymosodiad;
- llafar – galw enwau, sarhau, gwneud sylwadau tramgwyddus; ac
- anuniongyrchol – lledu storïau cas am rywun, eithrio o grwpiau cymdeithasol, bod yn destun sïon maleisus, anfon negeseuon e-bost neu negeseuon testun maleisus ar ffonau symudol.'

### Cyfrifoldeb i fynd i'r afael â bwlio

Mae gan ddarparwyr addysg gyfrifoldeb i fynd i'r afael â bwlio o bob math o dan Ddeddf Addysg 2002. Mae'n ofynnol i ysgolion, colegau a phrifysgolion unigol roi polisi gwrth-fwlio ar waith, sy'n nodi sut byddant:

- yn cofnodi achosion o fwlio;
- yn ymchwilio i'r achosion, ac yn delio â nhw;
- yn cynorthwyo dioddefwyr; ac
- yn disgyblu bwlis.

Dylai ysgolion ddarparu hyfforddiant i staff ar sut i nodi, atal a rheoli bwlio. Mae'n ofynnol i awdurdodau lleol lunio polisi gwrth-fwlio ar gyfer eu hardal, gan nodi unrhyw dueddiadau penodol yn yr ardal a dweud sut byddant yn cynorthwyo ysgolion.

### Monitro a chofnodion achosion o fwlio

Yn ei chyhoeddiad 'Parchu Eraill: Trosolwg Gwrth-fwlio' (2011), mae Llywodraeth Cymru yn nodi arfer orau wrth fonitro a chofnodi achosion o fwlio:
"Mae gan y rhan fwyaf o ysgolion fecanweithiau ar gyfer cofnodi achosion o fwlio. Mae monitro achosion o fwlio yn galluogi ysgol i nodi patrymau ymddygiad a graddau'r bwlio, ac wedyn cymryd camau rhagweithiol i'w herio. Mae'n arfer orau i ysgol gofnodi pob achos o fwlio, yn ogystal â mathau penodol o fwlio. Gall ysgolion sy'n defnyddio prosesau monitro addasu eu polisïau bwlio i ymateb i dueddiadau a materion penodol."

## Prif ganfyddiadau

### Profiadau disgyblion o fwlio

1 Mae gormod o ddisgyblion yn dioddef o fwlio ar ryw adeg yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol. Gall effeithiau cael eich bwlio fod yn rhai tymor byr neu dymor hir, yn seicolegol neu'n gymdeithasol, ac maent yn aml yn arwain at dangyflawni neu broblemau presenoldeb. Mae grwpiau penodol o ddisgyblion yn wynebu risg uwch na'r cyffredin o gael eu bwlio, gan gynnwys:

- disgyblion ag anghenion arbennig neu anabledd;
- disgyblion lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thrawsrywiol; a
- disgyblion o gefndir ethnig lleiafrifol neu grefyddol.

2 Mae profiadau disgyblion o fwlio a'r ffyrdd y mae ysgolion yn delio ag ef yn amrywio'n eang. Mewn llawer o ysgolion uwchradd, gallai pa mor dda y mae staff yn delio â bwlio amrywio o fewn ysgol hefyd. Yn yr ysgolion uwchradd hyn, nid oes gan staff ddealltwriaeth glir o beth sy'n gwneud 'achos adroddadwy' o fwlio, am nad oes gan yr ysgol ddiffiniad cytûn o fwlio sy'n cael ei ddeall yn glir gan gymuned yr ysgol gyfan. Hyd yn oed mewn ysgolion sydd â strategaethau cadarn i fynd i'r afael â bwlio, yn aml, nid oes dealltwriaeth ar y cyd o bwysigrwydd y nodweddion gwarchodedig na'u goblygiadau cyfreithiol.

### Ethos a gwerthoedd

3 Mae disgyblion yn adrodd am lai o achosion o fwlio, yn gyffredinol ac ar sail y nodweddion gwarchodedig, mewn ysgolion lle ceir ethos cryf sy'n hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth. Fodd bynnag, nid oes digon o ysgolion yn sefydlu sail gadarn ar gyfer delio â bwlio trwy helpu disgyblion i ddeall eu hawliau a defnyddio Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn. Mae'r ysgolion lle mae arweinwyr yn defnyddio'r confensiwn i sefydlu ethos lle mae plant yn deall bod ganddynt hawl i fod yn ddiogel ac yn gallu arfer yr hawl honno yn aml yn llwyddo i oresgyn effeithiau bwlio ac achosion o fwlio. Dyfynnir astudiaethau achos ysgolion o'r fath ym mhennod 2 yr adroddiad hwn.

4 Ceir cyswllt agos rhwng y modd y mae disgyblion yn trin ei gilydd a pha mor dda y mae arweinwyr yn cyfleu disgwyliadau am ymddygiad disgyblion. Mae'r ysgolion

gorau yn defnyddio dull rhagweithiol o atal bwlio a lliniaru ei effeithiau pan fydd yn digwydd. Er enghraifft, maent yn gwneud yn siŵr bod goruchwyliaeth effeithiol rhwng gwersi, amser egwyl ac amser cinio, pan mae bwlio'n fwy tebygol o ddigwydd, ac yn darparu lleoedd diogel ar gyfer grwpiau sy'n agored i niwed yn ystod y cyfnodau hyn. Maent yn darparu gwasanaethau cwnsela ac yn defnyddio asiantaethau allanol i gynorthwyo disgyblion sy'n cael eu bwlio.

**Ymgynghori â disgyblion**

5 Ychydig iawn o ysgolion sy'n ymgynghori â grwpiau o ddisgyblion i gael darlun go iawn o raddau a natur bwlio yn yr ysgol. Mae'r ysgolion gorau yn defnyddio ystod o ddulliau i gasglu barn disgyblion, rhieni neu ofalwyr, a staff am fwlio.

**Bwlio geiriol**

6 Mewn lleiafrif o ysgolion cynradd, nid oes gan staff ddarlun clir o raddau'r bwlio geiriol sy'n digwydd neu'r math o iaith a ddefnyddir yn rheolaidd fel ffurf o sarhad. Mewn lleiafrif o ysgolion uwchradd, nid yw staff yn trin sylwadau a all achosi tramgwydd yn ddigon difrifol ond maent yn ei drin fel 'cellwair' arferol.

**Cadw cofnodion**

7 Mae'r rhan fwyaf o ysgolion yn yr arolwg yn cadw cofnodion o achosion ymddygiadol a chofnod penodol o achosion o fwlio. Ychydig iawn o ysgolion cynradd sy'n categoreiddio achosion yn unol â'r nodweddion gwarchodedig. O ganlyniad, nid ydynt yn cael darlun clir o batrymau ymddygiad dros gyfnod y gallant ei ddefnyddio i lywio cynllunio gwrth-fwlio.

**Cynorthwyo disgyblion**

8 Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwybod wrth bwy i ddweud os ydynt yn gweld rhywun yn cael ei fwlio neu'n cael eu bwlio eu hunain. Mae'r ysgolion gorau yn arddangos manylion ynghylch ble mae cymorth ar gael, ac yn rhoi manylion am linellau cymorth lleol a chenedlaethol. Mae'r ysgolion hyn yn rhoi cyfleoedd i ddisgyblion gynorthwyo ei gilydd, er enghraifft trwy systemau cyfeillion. At ei gilydd, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion ysgol gynradd yn hyderus y bydd yr ysgol yn delio â'u problemau yn effeithiol. Fodd bynnag, wrth i ddisgyblion fynd yn hŷn, maent yn mynd yn llai hyderus y bydd yr ysgol yn gallu datrys problemau bwlio.

9 Mae'r rhan fwyaf o ysgolion yn cynnal 'wythnos gwrth-fwlio' bob blwyddyn sydd fel arfer yn cynnwys materion yn gysylltiedig â'r nodweddion gwarchodedig. Mae'r wythnosau hyn fel arfer yn canolbwyntio ar ddatblygu medrau personol, cymdeithasol ac emosiynol disgyblion, gan gynnwys mwy o gadernid wrth ddelio â bwlio. Fodd bynnag, ni chynllunnir gystal ar gyfer datblygu cadernid yn y cwricwlwm ysgol yn gyffredinol. Mewn llawer o ysgolion, mae'r cwricwlwm yn dathlu gwahaniaethau unigol, ond mae'n aml yn osgoi'r agweddau y mae staff yn teimlo'n llai hyderus yn eu trafod, fel homoffobia ac ailbennu rhywedd. Mae lleiafrif o ysgolion yn bryderus ynghylch amlygu problemau amrywiaeth ac yn gweld hyn yn ddadleuol o bosibl. Mae'r agwedd hon yn golygu bod lleiafrif o ysgolion dim ond yn mynd i'r afael â phroblemau wrth iddynt godi, yn hytrach nag adeiladu arnynt yn y cwricwlwm mewn modd rhagweithiol.

## Bwlio seiber

10 Yn y rhan fwyaf o ysgolion uwchradd, mae disgyblion a staff yn pryderu am y cynnydd mewn bwlio seiber, yn enwedig mewn perthynas â'r nodweddion gwarchodedig. Mae bwlio seiber wedi creu mathau newydd o fwlio nad yw rhai staff yn gyfarwydd â nhw. Yn yr arfer orau, mae staff yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am y technolegau y mae disgyblion yn eu defnyddio ac yn deall y potensial i'w camddefnyddio yn yr ysgol a thu hwnt.

## Polisïau, cynlluniau a gweithdrefnau

11 Nid yw llawer o gynlluniau cydraddoldeb strategol ysgolion yn rhoi digon o sylw i'r ystod lawn o nodweddion gwarchodedig. Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 wedi achosi cryn ddryswch, yn enwedig mewn ysgolion cynradd, rhwng cynllun cydraddoldeb anabledd a chynllun cydraddoldeb strategol, ac efallai na fydd camau gweithredu yn ymwneud â'r nodweddion gwarchodedig yn ymddangos yn y naill neu'r llall. O'r ysgolion yn yr arolwg, dim ond rhai ohonynt sy'n nodi 'lleihau bwlio ar sail nodweddion gwarchodedig' fel un o'u hamcanion cydraddoldeb. Nid yw hyd yn oed yr ysgolion hyn yn cyfeirio at fanylion, fel sut maent yn bwriadu mynd i'r afael â bwlio ar sail hil neu fynd i'r afael â phroblemau bwlio homoffobig.

12 Mae gan lawer o ysgolion bolisïau ymddygiad a gwrth-fwlio ar wahân. Yn yr enghreifftiau gorau, caiff y polisïau hyn eu deall yn dda ac maent yn nodi disgwyliadau'r ysgol ynglŷn â'r modd y dylai aelodau o gymuned yr ysgol drin ei gilydd. Mae rhai ysgolion wedi cyfuno'r polisïau hyn mewn un ddogfen. Mae'r ysgolion hyn yn gweld bwlio o fewn continwwm ymddygiad ac yn tueddu i ddelio ag ef yn fwy llwyddiannus.

13 Wrth lunio cynlluniau cydraddoldeb strategol, mae'n ofynnol i ysgolion ymgynghori'n eang â'r gymuned a gyda grwpiau sy'n cynrychioli nodweddion gwarchodedig. Mae llawer o ysgolion yn ymgynghori â disgyblion, rhieni a staff, ond mae rhai ohonynt yn gofyn barn grwpiau sy'n gysylltiedig â'r nodweddion gwarchodedig.

14 Mewn llawer o ysgolion, mae cyrff llywodraethol yn adolygu cynnydd tuag at fodloni'r cynllun cydraddoldeb strategol bob blwyddyn. Fodd bynnag, mae ansawdd y monitro hwn a'r wybodaeth a roddir i lywodraethwyr yn amrywio gormod ac mae'n anfoddhaol ar y cyfan.

15 Rhoddodd awdurdodau lleol gymorth i ysgolion gyda llunio cynlluniau cydraddoldeb strategol. Nid yw pob awdurdod lleol a chonsortia rhanbarthol yn rhoi cymorth a chyngor parhaus i ysgolion trwy fonitro priodoldeb amcanion strategol ysgolion neu'r cynnydd tuag at eu bodloni yn ddigon da. Nid yw llawer ohonynt yn darparu hyfforddiant effeithiol i lywodraethwyr sy'n eu galluogi i gyflawni eu cyfrifoldebau statudol i fonitro cynlluniau ac amcanion cydraddoldeb strategol.

16 Mewn rhai clystyrau, mae ysgolion yn cydweithio i nodi materion posibl mewn perthynas â'r nodweddion gwarchodedig wrth baratoi cynlluniau cydraddoldeb strategol. Mae'r clystyrau hyn yn rhannu gwybodaeth ac arbenigedd defnyddiol wrth oresgyn gwahaniaethu a bwlio. Fodd bynnag, ychydig iawn o achosion a geir pan fydd ysgolion sy'n bwydo ac ysgolion sy'n derbyn yn gweithio tuag at amcanion cydraddoldeb strategol ar y cyd.

**Datblygiad ac agweddau staff**

17 Mae llawer o ysgolion yn rhoi hyfforddiant i staff ar fwlio, er bod yr hyfforddiant yn tueddu i fod yn gyffredinol ac nid yw'n ymwneud yn benodol â'r nodweddion gwarchodedig. Pan fydd staff yn cael hyfforddiant penodol, maent yn gweld hyn yn ddefnyddiol. Mae ysgolion yn dweud nad oes hyfforddiant wyneb yn wyneb o ansawdd uchel, yn enwedig mewn perthynas â materion trawsrywiol. Nid yw llawer o ysgolion yn ymwybodol o ganllawiau defnyddiol Llywodraeth Cymru 'Parchu Eraill'.

## Argymhellion

**Dylai ysgolion:**

A1 godi ymwybyddiaeth am fwlio ar sail nodweddion gwarchodedig gyda disgyblion, rhieni, staff, a llywodraethwyr a defnyddio dull mwy rhagweithiol o atal a lliniaru ei effeithiau (gweler Atodiad 3 am restr wirio);

A2 ymgynghori â disgyblion, rhieni, a phobl eraill i nodi graddau a natur bwlio yn yr ysgol a chytuno ar gynnwys cynlluniau cydraddoldeb strategol;

A3 cynllunio cyfleoedd sy'n briodol i oedran yn y cwricwlwm i drafod materion yn ymwneud â'r nodweddion gwarchodedig a meithrin gallu disgyblion i wrthsefyll bwlio;

A4 sicrhau bod gan staff ddealltwriaeth glir o raddau a natur y bwlio a allai ddigwydd yn yr ysgol, gan gynnwys bwlio seiber,

A5 gwneud yn siŵr bod staff yn gwybod sut i ddelio ag achosion o fwlio a'u cofnodi;

A6 cofnodi a monitro achosion o fwlio mewn perthynas â'r nodweddion gwarchodedig a defnyddio'r wybodaeth hon i adolygu amcanion cydraddoldeb strategol; a

A7 gwneud yn siŵr bod yr holl bolisïau a gweithdrefnau yn bodloni gofynion Deddf Cydraddoldeb 2010.

**Dylai awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol:**

A8 ddarparu hyfforddiant a chymorth i staff ysgolion i wella eu dealltwriaeth o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 a'i goblygiadau;

A9 darparu hyfforddiant a chymorth i lywodraethwyr ysgol i'w galluogi i gyflawni eu cyfrifoldebau statudol i fonitro cynlluniau ac amcanion cydraddoldeb strategol; a

A10 monitro ansawdd ac effeithiolrwydd cynlluniau cydraddoldeb strategol ysgolion yn agosach.

**Dylai Llywodraeth Cymru:**

A11 roi cyhoeddusrwydd i ganllawiau 'Parchu Eraill'.

## 1 Profiad disgyblion o fwlio

18 Nid ydym yn gwybod yn union faint o ddisgyblion sy'n dioddef yn sgil bwlio. Mae gwahanol ymchwil yn awgrymu y bydd rhwng 20% a 50% o ddisgyblion, ar ryw adeg yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, yn dioddef bwlio (gweler Atodiad 2 am gyfeiriadau at ddetholiad o ymchwil perthnasol). Rhan o'r anhawster wrth fesur graddau bwlio yw penderfynu pryd mae galw enwau cas neu ymddygiad creulon arall yn ddigon difrifol neu barhaus i'w gategoreiddio yn fwlio.

19 Mae bwlio yn difetha bywydau gormod o ddisgyblion. Gall effeithiau cael eich bwlio fod yn rhai tymor byr neu dymor hir, yn seicolegol neu'n gymdeithasol, ac maent yn aml yn arwain at dangyflawni neu broblemau presenoldeb. Mae grwpiau penodol o ddisgyblion yn wynebu risg uwch na'r cyffredin o gael eu bwlio, gan gynnwys:

- disgyblion ag anghenion arbennig neu anabledd;
- disgyblion lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thrawsrywiol; a
- disgyblion o gefndir ethnig lleiafrifol neu grefyddol.

Enghraifft frawychus o hyn yw bod 55% o bobl ifanc lesbiaidd, hoyw a deurywiol yn dweud eu bod yn dioddef bwlio homoffobig mewn ysgolion (The School Report: Stonewall (2012)).

20 Mae rhan o'r rheswm am y diffyg data meintiol ar raddau bwlio ar sail y nodweddion gwarchodedig o ganlyniad i ddiffygion mewn polisïau ac arferion ysgolion, yn enwedig o ran nodi a chofnodi bwlio. Ychydig iawn o ysgolion cynradd neu uwchradd sy'n defnyddio grwpiau ffocws disgyblion yn llwyddiannus i gael darlun cywir o'r math o fwlio, a faint o fwlio sy'n digwydd yn yr ysgol. Mae'r rhesymau y mae disgyblion yn dioddef bwlio yn gymhleth ac mae staff yn aml yn ei chael yn anodd cofnodi achos y bwlio neu p'un a yw'n ymwneud â nodwedd warchodedig.

21 Mae profiadau disgyblion o fwlio a'r modd y mae ysgolion yn delio ag ef yn amrywio'n eang. Nid yw'r holl fwlio sy'n digwydd mewn ysgolion yn ymwneud â'r nodweddion gwarchodedig. Mae llawer o staff a disgyblion yn ei chael yn anodd nodi pam mae rhai disgyblion yn cael eu bwlio. Mae disgyblion sy'n dioddef bwlio yn aml yn ei briodoli i fod yn wahanol neu edrych yn wahanol mewn rhyw ffordd. Gallai hyn fod yn gysylltiedig â'r nodweddion gwarchodedig, neu efallai ddim. Er enghraifft, gallai disgyblion deimlo eu bod yn cael eu bwlio am fod dros eu pwysau neu am nad ydynt yn dda mewn chwaraeon. Mewn llawer o ysgolion uwchradd, mae profiadau disgyblion o ba mor dda y mae'r ysgol yn delio ag achosion o fwlio yn aml yn amrywio ar draws yr ysgol.

22 Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion oedran cynradd yn hyderus y bydd staff yn delio â bwlio yn sensitif a'u bod yn datrys problemau'n gyflym yn y rhan fwyaf o achosion. Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion ddealltwriaeth glir o'r camau a'r cosbau y mae'r ysgol yn eu defnyddio i ddatrys problemau. Fodd bynnag, wrth i ddisgyblion fynd yn hŷn, maent yn mynd yn llai hyderus y bydd yr ysgol yn gallu datrys unrhyw broblemau sydd ganddynt o ran bwlio. Bron ym mhob ysgol, mae disgyblion yn gwybod wrth bwy i ddweud os ydynt yn gweld gweithredoedd o fwlio neu'n dioddef bwlio eu hunain.

23 Mae bwlio mewn ysgolion cynradd yn tueddu i ddigwydd yn ystod cyfnodau llai strwythuredig yn y diwrnod ysgol, fel amser chwarae neu amser cinio. Mewn llawer o ysgolion cynradd, mae systemau da yn eu lle i leihau risg bwlio yn y cyfnodau hyn trwy sicrhau bod gan bob disgybl gwmni i chwarae. Mae'r rhain yn cynnwys 'arosfannau cyfeillgarwch' lle gall disgyblion aros os nad oes ganddynt ffrind yn gwmni i chwarae neu 'gyfeillion cae chwarae' sy'n cynnwys disgyblion mewn gweithgareddau. Mae'r rhain yn sicrhau bod disgyblion sy'n agored i niwed yn dod o hyd i grwpiau newydd o ffrindiau neu'n teimlo eu bod yn cael cymorth gan ddisgybl hŷn. Mae rhai ysgolion cynradd yn hyfforddi mentoriaid cyfoedion yn benodol i chwilio am ddisgyblion a allai fod yn cael eu bwlio a chynnig 'clust i wrando'. Mae staff yn dewis mentoriaid yn ofalus ac yn sicrhau eu bod yn gwybod pryd mae angen rhoi gwybodaeth i oedolyn.

24 Mewn llawer o ysgolion cynradd, mae disgyblion yn teimlo bod staff yn defnyddio dull cyson o ddelio ag iaith amhriodol. Mae hyn fel arfer yn golygu bod yr aelod o staff sy'n clywed iaith amhriodol yn siarad â'r disgybl ac yn esbonio pam nad yw'n dderbyniol. Fodd bynnag, mewn lleiafrif o ysgolion cynradd, nid yw staff yn cael darlun clir o raddau'r bwlio geiriol sy'n digwydd neu'r math o iaith y mae disgyblion yn ei defnyddio'n rheolaidd fel ffordd o sarhau. Yn yr ysgolion hyn, mae disgyblion yn aml yn defnyddio iaith homoffobig fel ffordd o sarhau, ac nid yw hyn yn ymwneud yn uniongyrchol â ph'un a oes gan ddisgyblion farn ynghylch rhywioldeb disgybl arall ai peidio. Mae disgyblion yn esbonio eu bod yn defnyddio'r iaith i sarhau ac, os ydynt yn flin, maent yn 'defnyddio'r gair gwaethaf y gallant feddwl amdano', hyd yn oed os nad ydynt yn siŵr o'i ystyr. Dywedodd disgyblion fod termau cam-drin yn tueddu i fod yn ffasiynol i'w defnyddio a'u bod yn newid dros gyfnod. Mewn rhai ysgolion, dywedodd disgyblion fod 'hoyw' yn derm a oedd yn cael ei ddefnyddio'n aml yn y gorffennol, ond ni chaiff ei ddefnyddio mor aml nawr. Fodd bynnag, cyfeiriodd disgyblion mewn un ysgol at ran o'r maes chwarae fel y 'gornel hoyw'.

25 Mae'r astudiaeth achos ganlynol yn egluro'r modd y mae Ysgol Gynradd Eveswell wedi herio ymddygiadau staff a disgyblion i gael gwared ar stereoteipio o ran rhywedd a mynd i'r afael â homoffobia.

**Cael gwared ar stereoteipio o ran rhywedd a mynd i'r afael â homoffobia yn Ysgol Gynradd Eveswell**

**Cyd-destun**

Mae Ysgol Gynradd Eveswell yng Nghasnewydd. Mae'r ysgol yn darparu ar gyfer disgyblion rhwng tair ac un ar ddeg oed. Mae 501 o ddisgyblion ar y gofrestr ar hyn o bryd, gan gynnwys 94 yn y dosbarthiadau meithrin. Mae gan ryw 12% o ddisgyblion hawl i gael prydau ysgol am ddim. Saesneg yw prif iaith y cartref i fwyafrif o ddisgyblion. Mae tua 32% o ddisgyblion yn cael cymorth ar gyfer Saesneg fel iaith ychwanegol a daw 30% o ddisgyblion o gefndir ethnig lleiafrifol. Mae gan bron i 13% o ddisgyblion yr ysgol anghenion dysgu ychwanegol.

**Strategaeth**

Er 2009, mae'r ysgol wedi gwneud gwaith sylweddol yn herio stereoteipiau o ran diwylliant ac mae wedi penderfynu ymestyn ei gwaith i gynnwys stereoteipio o ran

rhywedd erbyn hyn. Bu'n gweithio gyda'r awdurdod lleol a sefydliad cenedlaethol i fynd i'r afael â homoffobia a mynd i'r afael ag unrhyw ddewisiadau a safbwyntiau o ran stereoteipio ymhlith disgyblion.

**Gweithredu**

Trefnodd arweinwyr a rheolwyr hyfforddiant staff cyfan a ddechreuodd trwy gynnal archwiliad staff o ganfyddiadau a dealltwriaeth o'r materion. Amlygodd yr archwiliad nad oedd staff yn hyderus yn delio â materion sensitif fel defnyddio iaith homoffobig. Galluogodd yr hyfforddiant i staff ddelio â'u teimladau eu hunain ac ymddygiadau posibl o ran stereoteipio a dangos sut i fynd i'r afael â homoffobia mewn ffyrdd sy'n addas ar gyfer disgyblion o oedran cynradd.

Clywodd staff am brofiadau disgyblion ac oedolion lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thrawsrywiol (LGBT) mewn ysgolion. Fe wnaethant edrych ar ystadegau ar gyfer bwlio homoffobig, darllen am faterion rhywedd a datblygu portffolio o waith yn gysylltiedig â'r rhaglen addysg bersonol a chymdeithasol. Fe wnaethant chwilio am ddeunyddiau y gallent eu defnyddio i ddechrau trafodaethau am faterion rhywedd a chreu cronfa o syniadau y maent yn eu bwydo i mewn i'r cwricwlwm.

Fe wnaeth y profiadau hyn helpu staff i fod yn fwy ymwybodol o stereoteipio a'u paratoi i fynd i'r afael ag ef fel rhan o wersi eraill. Fe wnaethant ddefnyddio arddangosfeydd ystafell ddosbarth yn effeithiol i hyrwyddo negeseuon cadarnhaol am amrywiaeth a gwahaniaeth.

Fe wnaeth arweinwyr a rheolwyr arfarnu effaith y prosiect a diwygio polisïau. Fe wnaethant ddiwygio'r dull ysgol gyfan ar sut i ddelio ag achosion homoffobig ac ystyried sut i osgoi iaith a allai atgyfnerthu stereoteipiau o ran rhywedd.

**Deilliannau**

Mae'r ysgol wedi dileu iaith homoffobig bron yn gyfan gwbl. Mae hyder staff wrth fynd i'r afael â homoffobia wedi cynyddu'n sylweddol. Mae staff yn hyrwyddo amrywiaeth o ran rhywedd fel rhan o'r cwricwlwm a gwaith o ddydd i ddydd. Mae disgyblion yn nodi ac yn cwestiynu stereoteipiau o ran rhywedd o oedran ifanc. Mae bechgyn a merched yn cymryd rhan mewn ystod ehangach o weithgareddau fel rygbi, pêl-droed a chanu mewn côr o ganlyniad.

26 Mewn rhai ysgolion, nid yw goruchwylwyr amser cinio yn delio â materion mor effeithiol ag athrawon a chynorthwywyr addysgu. Mae achosion o anghytuno sy'n digwydd amser cinio yn fwy tebygol o barhau neu ddwysáu yn fwlio nag ar adegau eraill yn ystod y diwrnod ysgol. Fodd bynnag, mewn rhai ysgolion, mae hyn yn sgil hyd yr amser cinio yn hytrach nag ansawdd y goruchwylio. Pan gaiff disgyblion fynediad rhydd i'r maes chwarae cyfan, gall bwlio ddigwydd mewn corneli cudd lle nad yw goruchwyliaeth staff mor drylwyr. Pan fydd ysgolion yn rhoi ystyriaeth ofalus i sut a ble mae disgyblion yn chwarae ac yn darparu gweithgareddau ysgogol ac offer maes chwarae, mae achosion o fwlio yn lleihau.

27 Mewn ysgolion uwchradd, mae disgyblion yn gyffredinol yn dioddef mwy o achosion o fwlio yn ymwneud â hil, crefydd, cefndir neu ymddangosiad, ac o fwlio homoffobig. Mewn ysgolion sydd wedi ceisio dileu iaith homoffobig, mae'r achosion o fwlio homoffobig wedi lleihau. Mewn lleiafrif o ysgolion, nid yw athrawon neu uwch reolwyr yn ei drin fel mater difrifol. Mae disgyblion yn dweud bod gwahaniaethau rhwng aelodau staff o ran yr iaith homoffobig y maent yn ei derbyn. Mae rhai ohonynt yn ei hanwybyddu ac mae rhai eraill yn ei chymryd o ddifrif. Ceir gwahaniaethau o fewn ysgolion ac ar draws ysgolion hefyd. Mewn un ysgol yr ymwelwyd â hi, lle roedd uwch staff yn credu bod goddefgarwch yr ysgol yn isel i unrhyw iaith ymosodol, dywedodd disgyblion: "mae p'un a fyddwch chi mewn helynt ai peidio yn dibynnu ar bwy sy'n ei chlywed".

28 Yn y rhan fwyaf o ysgolion uwchradd, mae'r cynnydd mewn bwlio seiber, fel cyfrwng ar gyfer bwlio dienw, yn destun pryder i ddisgyblion a staff. Yn gyffredinol, mae ysgolion yn gweld y math hwn o fwlio yn anodd i'w drin. Nid ydynt yn aml yn cael gwybod am hyn chwaith, am fod disgyblion yn teimlo gormod o gywilydd neu embaras i siarad amdano. Yn aml, erbyn i'r ysgol fod yn ymwybodol o fwlio seiber, mae wedi bod yn digwydd ers tro. Mae llawer o ddisgyblion yn teimlo bod y sefyllfa'n gwella wedi i oedolion fynd i'r afael â phroblemau unigol, a siarad am deimladau'r dioddefwr yn agored. Mae hyn yn aml yn cynnwys cysylltu â swyddogion cyswllt yr heddlu sy'n gweithio gyda grwpiau o ddisgyblion ac yn eu hatgoffa am oblygiadau cyfreithiol posibl bwlio seiber.

29 Er enghraifft, mae Ysgol Dŵr-y-Felin yn cymryd pob achos o fwlio seiber o ddifrif. Mae'r staff yn rhagweithiol wrth addysgu disgyblion am e-ddiogelwch trwy wersi technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) ac addysg bersonol a chymdeithasol, gwasanaethau a sgyrsiau gan siaradwyr o'r tu allan. Mae gan yr ysgol bolisi gwrth-fwlio manwl, sy'n cynghori staff am y gweithdrefnau i'w dilyn pan fydd disgyblion yn rhoi gwybod am fwlio seiber. Mae'r ysgol yn gweithredu yn unol â phob achos o fwlio a adroddir trwy gynorthwyo'r dioddefwr a gweithio gyda'r tramgwyddwr. Mae staff yn gweithio'n agos gyda swyddogion cyswllt yr heddlu i gynorthwyo disgyblion os yw'r bwlio wedi digwydd yn yr ysgol neu'r tu allan. Mae gan yr ysgol weithdrefnau da i sicrhau bod disgyblion yn rhydd o fwlio seiber tra byddant ar safle'r ysgol. Nid yw staff yn caniatáu i ffonau symudol gael eu defnyddio ac maent yn monitro'r defnydd o'r rhyngrwyd yn ofalus trwy system soffistigedig sy'n gysylltiedig â rhwydwaith yr ysgol. Mae disgyblion yn gwerthfawrogi'r cymorth a'r wybodaeth a ddarperir trwy wersi ac yn gweld yr awgrymiadau sydd wedi'u cynnwys yn eu dyddiadur ysgol yn ddefnyddiol. O ganlyniad, maent yn fwy hyderus i ddefnyddio technoleg gwybodaeth ac yn gliriach ynghylch sut i ddelio â bwlio seiber.

30 Mewn rhai ysgolion, nid yw staff yn olrhain disgyblion sydd wedi cael eu bwlio yn ddigon da. Yn yr achosion hyn, mae disgyblion yn aml yn parhau i gael problemau bach ac mae'r rhain yn tueddu i ddwysáu yn ddiweddarach. Pan fydd ysgolion yn defnyddio cwnselwyr hyfforddedig neu oedolion dynodedig sydd ar gael yn hawdd i ddisgyblion, mae'r ysgol yn monitro lles disgyblion yn fwy llwyddiannus ac fe gaiff disgyblion gymorth gwell.

31 Mewn ychydig iawn o ysgolion, mae disgyblion sydd wedi symud i'r wlad hon yn ddiweddar yn teimlo bod disgyblion eraill yn eu bwlio am nad ydynt yn siarad Saesneg yn rhugl. Mae disgyblion yn gwneud jôcs amdanynt nad ydynt yn eu deall

yn llawn, ac o ganlyniad, maent yn mynd yn darged hawdd i fwlis. Pan fydd oedolyn dynodedig y gall disgyblion siarad ag ef, yn enwedig rhywun sy'n siarad eu mamiaith, maent yn fwy hyderus yn rhoi gwybod am unrhyw broblemau a gânt, ac o ganlyniad, caiff problemau eu datrys yn gyflym fel arfer.

32 Mae nifer fach iawn o ddisgyblion yn cadw draw o'r ysgol o ganlyniad i fwlio. Gallai'r bwlio hwn fod yn gysylltiedig â'r nodweddion gwarchodedig, neu efallai ddim. Dywed y disgyblion hyn nad ydynt yn gallu ymdopi â'r bwlio a bod dim dewis arall ganddynt. Fodd bynnag, ychydig iawn o ysgolion sy'n nodi bwlio yn rheswm dros absenoldeb.

33 Yn Ysgol Gynradd Gymunedol Townhill, mae disgyblion yn frwdfrydig ynglŷn â'r system 'mewngofnodi ac allgofnodi' sy'n gweithredu ar ddechrau a diwedd pob diwrnod. Dywedant fod hyn yn rhoi cyfle iddynt ddweud sut maent yn teimlo a bod rhywun yn gwrando ar eu pryderon cyn iddynt ddwysáu. Mae'r system hon yn gweithredu ar draws yr ysgol, ac o ganlyniad, defnyddir disgyblion i fynegi eu teimladau. Os nad yw disgyblion am fanylu ar eu teimladau, mae staff yn gwneud yn siŵr eu bod yn cael cyfle i siarad â nhw yn breifat yn ddiweddarach yn y dydd. Mae'r ysgol yn cyflogi rheolwr bugeiliol sy'n rhoi cymorth da i ddisgyblion ac yn datblygu cysylltiadau cryf gyda rhieni a'r gymuned. Mae disgyblion yn teimlo'n hyderus ynghylch siarad ag oedolion am eu teimladau ac yn gwybod beth fydd yr ysgol yn ei wneud i'w helpu i fynd i'r afael ag unrhyw ofidion neu bryderon. Dywed llawer o ddisgyblion fod hyn yn eu galluogi i ganolbwyntio'n well yn y dosbarth. Mae'r system hon yn galluogi staff i fonitro lles disgyblion yn effeithiol a mynd i'r afael â phroblemau posibl yn gynnar, gan arwain at lai o achosion o fwlio.

## 2 Ethos a gwerthoedd

34 Bron ym mhob un o'r ysgolion lle ceir ethos cryf sy'n hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth yn llwyddiannus, mae disgyblion yn dweud bod llai o achosion o fwlio, yn gyffredinol ac ar sail y nodweddion gwarchodedig. Mewn llawer o ysgolion felly, gall disgyblion ddisgrifio ethos yr ysgol ac esbonio'i werthoedd craidd. Mae gan ddisgyblion a staff ddealltwriaeth glir o'r hyn y mae'r ysgol yn ei ystyried yn ymddygiad annerbyniol.

35 Mae bron pob un o'r ysgolion yr ymwelwyd â nhw yn ystod yr arolwg wedi disgrifio gweledigaeth neu ddatganiad cenhadaeth sy'n amlinellu eu hethos. Yn y rhan fwyaf o ysgolion, mae hyn yn cyfeirio at hyrwyddo lles disgyblion. Mewn rhai ysgolion uwchradd, mae'n cyfeirio at ddileu neu leihau ymddygiad gwahaniaethol. Yn y rhan fwyaf o ysgolion cynradd, mae'r ethos yn debygol o ganolbwyntio ar annog disgyblion i fod yn garedig a meddylgar at ei gilydd a dangos parch at wahaniaethau unigol. Mewn rhai ysgolion, yn bennaf mewn ardaloedd lle nad yw cymunedau yn amrywiol, nid yw ethos yr ysgol yn canolbwyntio ddigon ar oddefgarwch na pharch at bobl eraill. Nid yw'r ysgolion hyn yn cydnabod bod y rhain yn faterion y dylid rhoi blaenoriaeth uchel iddynt ar gyfer paratoi disgyblion i fyw mewn cymdeithas amrywiol. Yn gyffredinol, caiff disgyblion yn yr ysgolion hyn brofiadau llai cadarnhaol o'r modd y mae staff yn delio â bwlio sy'n gysylltiedig â'r nodweddion gwarchodedig.

36 Pan fydd disgyblion yn datblygu datganiad cenhadaeth yr ysgol ac yn ailedrych arno'n rheolaidd, gallant yn aml fod yn llysgenhadon dros gydraddoldeb. Mae ganddynt rôl bwysig mewn cyfleu ethos yr ysgol i bobl eraill ac atgoffa'i gilydd ynghylch sut i ymddwyn.

37 Er enghraifft, mae hyn yn arbennig o amlwg yn Ysgol Gynradd Eastern, Port Talbot, lle mae disgyblion yn disgrifio'r ysgol yn 'gynhwysol' a gallant esbonio beth y mae hyn yn ei olygu a'r modd y mae'n effeithio ar y ffordd y maent yn ymddwyn tuag at ei gilydd. Mae pob disgybl yn rhan o ddatblygu datganiad cenhadaeth yr ysgol. Mae disgyblion yn dweud bod pawb yn aelodau o'r cyngor ysgol a bod eu barn yn cael ei chymryd o ddifrif. Teimlant fod gan bob un ohonynt ran mewn gosod yr ymddygiad arferol a ddisgwylir yn yr ysgol. O ganlyniad, mae ymddygiad wedi gwella ac ychydig iawn o achosion o fwlio a geir.

38 Yn y rhan fwyaf o ysgolion, mae cyswllt agos rhwng pa mor dda y caiff disgwyliadau am ymddygiad eu cyfleu gan arweinwyr a'r modd y mae disgyblion yn trin ei gilydd. Bron ym mhob ysgol, mae'r pennaeth yn cymryd y rôl arweiniol mewn datblygu a hyrwyddo ethos yr ysgol. Mewn llawer o ysgolion, ceir safonau disgwyliedig ar gyfer ymddygiad disgyblion a staff fel ei gilydd.

39 Bron ym mhob un o'r ysgolion yr ymwelwyd â nhw, mae staff a disgyblion yn teimlo mai'r pennaeth sy'n gosod yr ethos. Mewn ysgolion lle mae'r pennaeth ac arweinwyr eraill yn hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth ac yn amlygu ymddygiad gwahaniaethol, mae staff a disgyblion yn defnyddio dull rhagweithiol o leihau gwahaniaethu ac maent yn fwy ymwybodol o'r modd y mae'n effeithio ar bobl eraill.

40 Mae llawer o ysgolion yn defnyddio gwasanaethau'n dda i hyrwyddo'u hethos, ac yn yr enghreifftiau gorau, i fynd i'r afael ag unrhyw broblemau fel y maent yn codi. Mae ysgolion ffydd yn effeithiol iawn o ran defnyddio addoli ar y cyd fel cyfrwng i hyrwyddo ethos yr ysgol. Mae hyn oherwydd gallant gysylltu gwerthoedd yr ysgol â'r gwerthoedd sy'n llywio arfer eu ffydd.

41 Mae llawer o ysgolion yn nodi set o werthoedd allweddol yr hoffent i'w disgyblion eu mabwysiadu, ac maent yn hyrwyddo'r rhain trwy gydol y flwyddyn ysgol. Maent yn canolbwyntio ar werth penodol am gyfnod penodol, mis fel arfer, mewn gwasanaethau a gweithredoedd o addoli ar y cyd. Mae llawer o ysgolion yn dilyn hyn gyda gwaith yn yr ystafell ddosbarth sy'n cysylltu â meysydd eraill o'r cwricwlwm. Mae disgyblion yn rhannu eu gwaith dosbarth mewn gwasanaethau neu'n ei arddangos yn amlwg i atgoffa disgyblion a phobl eraill. Mewn llawer o ysgolion cynradd, mae staff yn llongyfarch neu'n gwobrwyo disgyblion am ddangos ymddygiadau sy'n gysylltiedig â'r gwerth hwn. Mewn un ysgol, maent yn rhoi mwclis gwydr mewn jar sy'n arwain at fod yn fesur cyffredinol o ba mor dda y dangosodd disgyblion y gwerth hwnnw. Mae'r rhan fwyaf o ysgolion sy'n mabwysiadu'r dull hwn yn gweithio o set o werthoedd cytûn. Mae'r rhain yn amrywio o un ysgol i'r llall, ond yn gyffredinol, maent yn cynnwys parch a goddefgarwch yn werthoedd allweddol. Mewn ysgolion sy'n ymgorffori'r gwerthoedd hyn yn eu hethos ysgol gyfan, mae disgyblion yn siarad yn hyderus amdanynt ac yn rhoi enghreifftiau o'r hyn y maent yn ei olygu mewn perthynas â pharchu a dathlu gwahaniaeth.

42 Rhai ysgolion yn unig sy'n defnyddio Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn fel y sail ar gyfer eu hethos. Yn yr ysgolion hyn, mae staff yn helpu disgyblion i ddeall eu hawliau ac yn eu hannog i siarad pan fyddant yn teimlo bod disgyblion eraill yn eu diystyru. Mae'r astudiaeth achos ganlynol yn amlygu'r modd y defnyddiodd Ysgol Gynradd Abertyleri Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn i ddatblygu eu hethos ysgol gyfan.

**Datblygu ethos ysgol sy'n hyrwyddo hawliau'r plentyn**

**Cyd-destun**

Mae Ysgol Gynradd Abertyleri yn darparu ar gyfer disgyblion rhwng tair ac un ar ddeg oed. Mae tua 390 o ddisgyblion ar y gofrestr ar hyn o bryd. Mae cyfran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn cynyddu, a 35% yw hi ar hyn o bryd. Mae'r ysgol wedi nodi bod gan 21% o ddisgyblion anghenion dysgu ychwanegol. Mae ychydig iawn o ddisgyblion yn dod o gefndir ethnig lleiafrifol. Nid yw unrhyw un o'r disgyblion yn siarad Cymraeg fel eu mamiaith.

**Strategaeth**

Mae Ysgol Gynradd Abertyleri wedi ymrwymo i fod yn gymuned gwbl gynhwysol lle mae disgyblion yn datblygu synnwyr ohonyn nhw eu hunain, sensitifrwydd at bobl eraill ac ymwybyddiaeth o'u hawliau a'u cyfrifoldebau fel dinasyddion byd-eang. Mae'r ysgol yn cofleidio'r egwyddorion y tu ôl i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn ac mae ffocws ar barchu hawliau disgyblion yn treiddio trwy lawer o agweddau ar fywyd yr ysgol.

**Gweithredu**

Mae staff yn annog ac yn cynorthwyo disgyblion i wybod a deall eu hawliau. Mae Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn wrth wraidd ethos a nodweddion yr ysgol mewn cynlluniau gwaith, cynlluniau gwersi a gwasanaethau. Mae'r ysgol yn gweithio gyda darparwr hyfforddiant i hyrwyddo gwybodaeth a dealltwriaeth o'r hawliau hyn gyda chymuned yr ysgol gyfan, gan gynnwys staff, disgyblion a rhieni. Mae'r darparwr hyfforddiant yn defnyddio cerddoriaeth a drama i archwilio materion cydraddoldeb ac amrywiaeth. Mae'r ysgol yn hyrwyddo delweddau cadarnhaol o bobl â hunaniaethau a galluoedd amrywiol ac mae'n annog disgyblion i ddathlu amrywiaeth a dangos parch at bawb. Mae hyn yn darparu sylfaen wybodaeth gadarn i ddisgyblion archwilio saith o'r naw nodwedd warchodedig. Mae disgyblion yn gwneud cyflwyniadau ar gydraddoldeb ac amrywiaeth i rieni, disgyblion mewn ysgolion eraill ac aelodau o'r gymuned leol.

Mae polisïau'r ysgol yn cysylltu â'i gilydd yn dda ac mae'r cynllun cydraddoldeb strategol yn nodi targedau clir sy'n gysylltiedig â'r nodweddion gwarchodedig.

**Effaith**

Mae'r ysgol wedi datblygu ethos cynhwysol yn llwyddiannus lle mae disgyblion yn gwybod beth yw eu hawliau ac maent yn parchu hawliau pobl eraill. Mae gan ddisgyblion agwedd gadarnhaol tuag at amrywiaeth, maent yn datblygu

ymwybyddiaeth a diddordeb mewn ystod eang o ddiwylliannau a thraddodiadau, ac yn gwybod sut mae'r rhain yn effeithio ar fywydau plant ledled y byd.

Mae disgyblion yn disgrifio'r ysgol fel 'ysgol sy'n dweud' nad yw'n goddef unrhyw fwlio ac maent yn hyderus i siarad am eu hawliau.

43 Yn Ysgol Gynradd Hafod yn Abertawe, mae disgyblion yn siarad yn hyderus am eu hawl i deimlo'n ddiogel a chael eu trin â pharch, a'r angen i barchu gwahaniaethau unigol. Mae grŵp o ddisgyblion yn monitro pa mor dda y mae hyn yn digwydd ac yn ymyrryd yn briodol os ydynt yn teimlo bod disgyblion unigol wedi torri rhai o'r rheolau. Er enghraifft, byddant yn galw cyfarfod gyda'r disgybl i esbonio eu pryderon a pham mae'n bwysig 'cadw at y rheolau'. Mae'r pennaeth yn rhan o'r grŵp hwn, ond y disgyblion sy'n ei arwain. Os yw disgybl yn bwlio neu os nad yw'n dangos parch at ddiwylliant neu gred disgybl arall, mae'r grŵp yn archwilio sut mae hyn yn gwneud i'r dioddefwr deimlo a sut mae'n effeithio ar ei hawliau. Maent yn trafod gyda'r tramgwyddwr beth mae angen iddo ei wneud i gywiro hyn a ph'un a ddylent osod unrhyw gosbau ai peidio.

## 3 Cwricwlwm

44 Mewn llawer o ysgolion, er bod staff yn aml yn manteisio ar gyfleoedd i ddathlu gwahaniaethau unigol, maent yn aml yn osgoi agweddau y maent yn teimlo'n llai hyderus yn eu cylch fel homoffobia neu ailbennu rhywedd.

45 Yn y rhan fwyaf o ysgolion cynradd, nid oes cynllun cyffredinol i ymdrin â phob agwedd ar wahaniaeth ac amrywiaeth unigol, gan gynnwys y rhai sy'n gysylltiedig ag ymddangosiad, crefydd, hil, rhywedd, rhywioldeb, anabledd a gallu. Bydd y rhan fwyaf o athrawon yn cyfeirio at yr un nodweddion, ond nid ydynt yn cynllunio sut i ddatblygu hyn yn systematig ar draws grwpiau blwyddyn a chyfnodau allweddol.

46 Yn y rhan fwyaf o ysgolion uwchradd, ceir cyfleoedd i fynd i'r afael â'r rhan fwyaf o'r nodweddion gwarchodedig. Mae rhan fawr gan y cwricwlwm addysg bersonol a chymdeithasol mewn cyflwyno negeseuon am wrth-fwlio yn y rhan fwyaf o ysgolion. Yn yr enghreifftiau gorau, ceir dull integredig ar draws meysydd y cwricwlwm. Fodd bynnag, mewn rhai ysgolion, mae'r gwaith wedi'i gyfyngu i bynciau ar wahân, fel addysg bersonol a chymdeithasol ac addysg grefyddol. Mae llawer o ysgolion yn defnyddio Bagloriaeth Cymru yn gyfrwng ar gyfer mynd i'r afael â llawer o'r nodweddion gwarchodedig.

47 Mae'r rhan fwyaf o ysgolion yn cynnal 'wythnos gwrth-fwlio' yn ystod y flwyddyn ysgol. Maent yn cymryd rhan yn yr wythnos a drefnir yn genedlaethol ac yn defnyddio'r deunyddiau a gynhyrchwyd i fynd i'r afael ag agwedd ar fwlio. Mewn rhai blynyddoedd, mae'r gweithgareddau hyn yn cysylltu'n agos â bwlio sy'n gysylltiedig â'r nodweddion gwarchodedig. Mae'r gweithgareddau'n canolbwyntio'n aml ar helpu disgyblion i ddatblygu ffordd well o wrthsefyll bwlio.

48 Mewn lleiafrif o ysgolion, mae athrawon yn addasu'r cwricwlwm yn briodol i ymateb i

faterion ysgol gyfan a chymunedol. Er enghraifft, maent yn annog disgyblion o wahanol ddiwylliannau i rannu eu credoau a'u traddodiadau a dathlu amrywiaeth o wyliau.

49 Mae lleiafrif o ysgolion yn defnyddio sesiynau athroniaeth yn dda i roi cyfleoedd da i blant gael trafodaethau manwl am faterion cydraddoldeb ac amrywiaeth. Mae hyn yn arbennig o effeithiol lle mae staff yn defnyddio'r rhain i nodi pryderon disgyblion am y nodweddion gwarchodedig, neu ddiffyg dealltwriaeth ohonynt.

50 Mae'r astudiaeth achos ganlynol yn dangos y modd y mae Ysgol Uwchradd Crucywel wedi datblygu dull sy'n mynd i'r afael â'r holl nodweddion gwarchodedig ac yn hyrwyddo goddefgarwch a dealltwriaeth.

**Ysgol Uwchradd Crucywel yn datblygu dull sy'n hyrwyddo goddefgarwch a dealltwriaeth**

**Cyd-destun**

Ysgol fro 11 i 19 oed ym Mharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yw Ysgol Uwchradd Crucywel, ac mae tua 750 o ddisgyblion yn mynychu, gyda 180 yn y chweched dosbarth. Mae gan ryw 5% o ddisgyblion hawl i gael prydau ysgol am ddim. Mae'r ysgol wedi nodi bod gan ryw 16% o ddisgyblion anghenion dysgu ychwanegol. Mae tua 4% o ddisgyblion yr ysgol o gefndir ethnig lleiafrifol. Mae ychydig iawn o ddisgyblion yn dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.

**Strategaeth**

Mae staff yn pwysleisio pwysigrwydd datblygu'r medrau a'r agweddau a fydd yn helpu disgyblion i fod yn ddinasyddion byd-eang cyfrifol. Mae'r disgwyliad bod pob aelod o gymuned yr ysgol yn arfer goddefgarwch a dealltwriaeth o bobl eraill yn ganolog i hyn. Mae'r ysgol wedi ymrwymo i fod yn gymuned gwbl gynhwysol lle mae disgyblion yn parchu ac yn dathlu gwahaniaethau unigol. Mae arweinwyr yr ysgol yn credu bod yn rhaid i'r cwricwlwm hyrwyddo materion amrywiaeth a chydraddoldeb i wireddu hyn.

**Gweithredu**

Mae athrawon yn nodi ble gallant hyrwyddo materion cydraddoldeb ac amrywiaeth yn effeithiol ar draws y cwricwlwm. Mae arweinwyr pynciau yn cynnwys cyfeiriad at agweddau ar y nodweddion gwarchodedig mewn cynlluniau gwaith. Mae arweinwyr bugeiliol yn gwneud defnydd da o wasanaethau i hyrwyddo materion amrywiaeth a chydraddoldeb sy'n gysylltiedig â'r nodweddion gwarchodedig ac yn sicrhau eu bod yn ymdrin â phob nodwedd. Mae tîm o athrawon arbenigol addysg bersonol a chymdeithasol yn rhoi arweiniad ychwanegol i staff ac yn cyflwyno unedau gwaith ar wahân ar rai o'r nodweddion gwarchodedig mewn gwersi addysg bersonol a chymdeithasol.

Mae swyddog cymorth myfyrwyr yn darparu cwnsela ac arweiniad i ddisgyblion ac yn cynorthwyo staff hefyd. Mae'r swyddog cymorth yn cynghori disgyblion, rhieni a staff ar fwlio seiber a materion e-ddiogelwch. Mae disgyblion yn y chweched dosbarth

wedi cael eu hyfforddi gan elusen i blant i ddarparu cymorth i gyfoedion a hyrwyddo materion amrywiaeth a chydraddoldeb.

**Effaith**

O ganlyniad i'r camau hyn:

- mae'r cwricwlwm yn hyrwyddo goddefgarwch, parch a dealltwriaeth yn fwy cyson;
- mae'r cwricwlwm yn hyrwyddo ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o bob un o'r nodweddion gwarchodedig;
- mae disgyblion o fewn y nodweddion gwarchodedig yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol;
- mae disgyblion yn gwybod eu hawliau a'u cyfrifoldebau ac yn dangos parch at bobl eraill;
- mae disgyblion yn hyderus yn rhoi gwybod am achosion o fwlio ac yn credu y bydd materion yn cael eu trin yn gyflym ac yn deg; ac
- mae gan ddisgyblion ddealltwriaeth dda o'u cyfrifoldebau fel dinasyddion byd-eang.

## 4 Polisïau a gweithdrefnau

51 Mae gan y rhan fwyaf o ysgolion ystod o bolisïau a gweithdrefnau i gynorthwyo disgyblion sy'n dioddef bwlio. Mae'r rhain yn amrywio o ran ansawdd o ragorol i anfoddhaol.

### Cynlluniau cydraddoldeb strategol

52 Mae'r rhan fwyaf o ysgolion yn gwybod bod Deddf Cydraddoldeb 2010 yn ei gwneud yn ofynnol iddynt gael cynllun cydraddoldeb strategol a bod hwn wedi disodli cynlluniau cydraddoldeb blaenorol, er y gallent ffurfio rhan o'r cynllun cyffredinol o hyd.

53 Er y dylai Deddf Cydraddoldeb 2010 ei gwneud yn haws i bobl ddeall ei gofynion a chydymffurfio â nhw, mae wedi arwain at ddryswch am ddogfennau polisi, yn enwedig mewn ysgolion cynradd. Er enghraifft, mewn rhai ysgolion, mae dryswch rhwng cynllun cydraddoldeb anabledd a chynllun cydraddoldeb strategol, ac nid yw camau yn ymwneud â'r nodweddion gwarchodedig yn ymddangos yn y naill na'r llall. Nid yw llawer o gynlluniau cydraddoldeb strategol yn rhoi sylw priodol i'r ystod o nodweddion gwarchodedig. Mae'r ysgolion yr ymwelwyd â nhw yn aml yn nodi materion yn ymwneud â'r nodweddion gwarchodedig yn ystod cyfweliadau ond ni chaiff y rhain eu cynnwys yng nghynllun gweithredu cydraddoldeb strategol yr ysgol.

54 Wrth baratoi ar gyfer rhoi'r Ddeddf ar waith, fe wnaeth y rhan fwyaf o awdurdodau lleol gynorthwyo ysgolion i greu cynlluniau cydraddoldeb strategol mewn digwyddiadau hyfforddi a thrwy greu dogfennau y gellid eu haddasu yn unol ag

anghenion unigol yr ysgol. Mae'r rhan fwyaf o ysgolion yn mabwysiadu'r templedi hyn ac yn adeiladu arnynt, ond nid yw rhai ohonynt yn eu haddasu ddigon yn unol â'u sefyllfa'u hun neu'n eu gwneud yn benodol i'r ysgol. O ganlyniad, nid yw'r cynlluniau hyn yn cefnogi'r ysgol yn llwyddiannus i hyrwyddo materion cydraddoldeb ac amrywiaeth nac i leihau bwlio ar sail y nodweddion gwarchodedig.

55 Wrth lunio cynllun cydraddoldeb strategol, rhaid i ysgolion ymgynghori'n eang â'r gymuned a grwpiau sy'n cynrychioli'r nodweddion gwarchodedig. Canfu tîm yr arolwg er bod llawer o ysgolion yn ymgynghori â disgyblion, staff a rhieni, ychydig iawn ohonynt sy'n gofyn am farn grwpiau cymunedol neu gymdeithasau sy'n gysylltiedig â'r nodweddion gwarchodedig. Mewn rhai ysgolion, mae uwch reolwyr yn llunio'r cynllun gweithredu heb ymgynghori rhyw lawer. Pan fydd hyn yn digwydd, mae amcanion yn aml yn gyfyng ac nid yw'r rhan fwyaf o staff yn ymwybodol ohonynt na'r hyn y mae angen iddynt ei wneud i'w cyflawni.

56 Mae'r astudiaeth achos ganlynol yn disgrifio'r modd y bu i ddisgyblion yn Ysgol Gynradd Hafod, Abertawe, esbonio'r nodweddion gwarchodedig i'w rhieni. Sicrhaodd hyn fod disgyblion a'u rhieni yn cymryd rhan weithredol mewn datblygu cynllun cydraddoldeb strategol yr ysgol.

**Mae disgyblion yn deall ac yn esbonio'r nodweddion gwarchodedig yn Ysgol Gynradd Hafod**

**Cyd-destun**

Mae Ysgol Gynradd Hafod yn Abertawe. Mae'r awdurdod lleol yn dynodi'r ardal leol yn un o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yn Abertawe ac mae bron pob un o'r disgyblion yn byw yn y 30% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Mae'r ysgol yn darparu ar gyfer plant rhwng tair ac un ar ddeg oed. Mae tua 240 o ddisgyblion ar y gofrestr. Mae Saesneg yn iaith ychwanegol i ryw hanner o'r disgyblion. Mae'r ysgol yn nodi bod gan ychydig dros draean o ddisgyblion anghenion addysgol arbennig. Mae tua 39% o'r disgyblion yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim.

**Strategaeth**

Mae'r pennaeth a'r staff wedi ymrwymo i ethos o gynhwysiant. Maent yn manteisio ar bob cyfle i hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth ac yn ceisio cynnwys aelodau o'r gymuned ym mywyd a gwaith yr ysgol. Wrth ddrafftio cynllun cydraddoldeb strategol yr ysgol, cydnabu'r pennaeth y byddai angen iddi sicrhau eu bod yn deall y nodweddion gwarchodedig er mwyn ymgynghori'n effeithiol â rhieni a'r gymuned.

**Gweithredu**

Ystyriodd y pennaeth a'r staff beth oedd y ffordd orau y gallent gynnwys rhieni. Fe wnaethant benderfynu creu cyflwyniad yn esbonio'r nodweddion gwarchodedig gan ddefnyddio iaith glir a ffotograffau. Roedd y cyflwyniad yn hygyrch i ddisgyblion ac yn esbonio'r nodweddion gwarchodedig mewn ffordd y gallent ei deall. Rhoddodd y pennaeth y cyfrifoldeb am wneud y cyflwyniad i ddisgyblion ym Mlwyddyn 6.

Rhoddodd y disgyblion gyflwyniad i staff yr ysgol, pan gawsant adborth ac ymarfer ateb cwestiynau. Yn dilyn hyn, fe wnaethant roi cyflwyniad i ddisgyblion cyfnod allweddol 2, llywodraethwyr yn un o gyfarfodydd y corff llywodraethol ac i asiantaethau partner yr ysgol yn un o'u cyfarfodydd rheolaidd.

Wedyn, fe wnaeth y disgyblion wahodd rhieni i weithdy lles lle gwnaethant esbonio'r nodweddion gwarchodedig a thrafod bwlio. Mynychodd cynorthwyydd dwyieithog y gweithdy i helpu â chyfieithu.

**Deilliannau**

Mae dealltwriaeth glir o'r nodweddion gwarchodedig gan lawer o ddisgyblion, rhieni ac aelodau o'r gymuned leol erbyn hyn. Cymerodd llawer ohonynt ran yn yr ymgynghoriad cyn drafftio'r cynllun cydraddoldeb strategol. Gall llawer o ddisgyblion drafod materion cydraddoldeb ac amrywiaeth yn hyderus ac mae ganddynt ddealltwriaeth glir o wahaniaethu ar sail y nodweddion gwarchodedig. Mae rhai disgyblion hŷn yn monitro effaith y cynllun cydraddoldeb strategol ac yn cyfrannu at ei adolygiad.

57 O blith yr ysgolion yn yr arolwg, rhai ohonynt yn unig sy'n nodi bod lleihau bwlio yn gysylltiedig â'r nodweddion gwarchodedig yn un o'u hamcanion cydraddoldeb. Fodd bynnag, nid yw hyd yn oed yr ysgolion hyn yn cyfeirio at nodwedd benodol, fel sut maent yn bwriadu mynd i'r afael â bwlio ar sail hil neu drwy fynd i'r afael â phroblemau bwlio homoffobig. Yn hytrach, maent yn cyfeirio at leihau'r achosion o fwlio sy'n gysylltiedig â'r nodweddion gwarchodedig yn gyffredinol. Mae llawer o gynlluniau yn cyfeirio at dargedau fel gwella mynediad i bobl anabl neu berfformiad bechgyn yn unol â merched. Ychydig iawn ohonynt sydd â thargedau fel cynyddu ymwybyddiaeth disgyblion o'r nodweddion gwarchodedig.

58 Mewn llawer o ysgolion, mae cyrff llywodraethol yn adolygu cynnydd tuag at y cynllun cydraddoldeb strategol bob blwyddyn. Fodd bynnag, mae ansawdd y gweithgarwch monitro hwn a'r wybodaeth a roddir i lywodraethwyr yn amrywio gormod ac mae'n anfoddhaol ar y cyfan. Mewn rhai ysgolion, mae uwch staff yn cynnal adolygiad ffurfiol ond nid ydynt yn rhannu'r canlyniadau gyda'r corff llywodraethol. Mewn llawer o ysgolion, mae adolygiad blynyddol yn edrych ar gynnydd o ran y cynllun gweithredu, ond nid yw'n gofyn am, nac yn ystyried, unrhyw wybodaeth newydd yn gysylltiedig â'r nodweddion gwarchodedig, er enghraifft holiaduron i rieni neu ddisgyblion, data cyfrifiad yr ysgol neu wybodaeth am gyrhaeddiad a pherfformiad. Yn y rhan fwyaf o ysgolion, mae'r targedau yn aros yr un fath â'r rhai a osodwyd yn 2012. Nid yw rhai ysgolion yn bwriadu adolygu'r cynllun tan 2015 pan ddisgwylir y bydd y targedau'n cael eu cwblhau. O ganlyniad, nid yw llywodraethwyr mewn lleiafrif o ysgolion yn gwybod digon am y cynllun cydraddoldeb strategol, cynnydd yr ysgol tuag ato, neu p'un ai ei dargedau yw'r rhai mwyaf addas ar gyfer yr ysgol. Yn yr ysgolion hyn, nid yw llywodraethwyr yn bodloni'r gofyniad statudol i gynnal adolygiad blynyddol o'r cynllun cydraddoldeb strategol.

59 Nid yw llawer o awdurdodau lleol yn rhoi hyfforddiant i lywodraethwyr i'w helpu i gyflawni eu cyfrifoldebau statudol wrth fonitro cynlluniau ac amcanion cydraddoldeb strategol.

## Polisïau ac arferion gwrth-fwlio

60 Mae gan lawer o ysgolion bolisïau ymddygiad a gwrth-fwlio ar wahân. Yn yr enghreifftiau gorau, mae'r rhain yn nodi disgwyliadau'r ysgol am y modd y dylai aelodau o gymuned yr ysgol drin ei gilydd. Mae rhai ysgolion wedi cyfuno'r rhain mewn un ddogfen neu wedi'u cysylltu'n agos â pholisïau perthnasol eraill, fel teithio ac e-ddiogelwch. O ganlyniad, maent yn gweld bwlio yn rhan o gontinwwm ymddygiadau ac yn delio ac ef yn llwyddiannus. Mewn rhai ysgolion, nid oes cydlyniad rhwng polisïau. Mae hyn yn arwain at ddiffyg eglurder ynglŷn â'r ffyrdd y dylai ysgolion gosbi bwlis. Mewn ysgolion cynradd yn benodol, nid yw polisïau a ddylai gysylltu â'i gilydd yn aml yn cael eu llunio felly, ac maent yn gwrth-ddweud ei gilydd yn uniongyrchol o bryd i'w gilydd. Mewn rhai ysgolion, er bod staff yn ymwybodol o fodolaeth polisïau, nid ydynt yn gwybod beth yw eu diben na'u cynnwys.

61 Mae'r rhan fwyaf o ysgolion yn cadw cofnodion o achosion ymddygiadol ac mae lleiafrif ohonynt yn eu cadw'n benodol ar gyfer achosion o fwlio. Ychydig iawn o ysgolion sy'n categoreiddio achosion mewn perthynas â'r nodweddion gwarchodedig. O ganlyniad, nid ydynt yn cael darlun clir o batrymau ymddygiad dros gyfnod y gallant eu defnyddio i lywio cynllunio cydraddoldeb strategol. Fodd bynnag, mae'r rhan fwyaf o ysgolion yn parhau i gofnodi achosion o natur hiliol, gan y bu'n rhaid iddynt roi gwybod am y rhain bob tymor yn y gorffennol. Lleiafrif o ysgolion cynradd yn unig sy'n cymryd cofnodi achosion o ddifrif ac yn defnyddio cofnodion yn effeithiol i olrhain disgyblion trwy'r ysgol. Mae'r ysgol yn cadw'r cofnodion hyn mewn cofnod canolog, sy'n creu darlun o bryderon am ddisgyblion unigol ac yn ddefnyddiol wrth nodi patrymau ymddygiad dros gyfnod.

62 Mewn llawer o ysgolion uwchradd, yn aml, caiff achosion o fwlio eu cofnodi mewn ffyrdd anghyson ac, yn anad dim, ni chânt eu categoreiddio yn unol â'r nodweddion gwarchodedig. Yn yr ysgolion hyn, mae gan staff farn wahanol ynghylch beth yw bwlio. O bryd i'w gilydd, mae gan adrannau yn yr un ysgol drothwyon gwahanol ar gyfer beth yw bwlio. Mae dealltwriaeth wahanol o beth yw 'achos adroddadwy' gan grwpiau staff gwahanol, er enghraifft, cynorthwywyr goruchwylio prydau ac athrawon, Mae hyn yn broblemus iawn pan fydd ysgolion am nodi materion yn gynnar ac wedyn dangos tystiolaeth o welliannau. Mewn ysgolion lle caiff yr holl achosion o gellwair a bwlio eu cofnodi'n drylwyr a chyson, gall arweinwyr nodi problemau cyn iddynt ddwysáu a gallant ddangos effaith eu camau gweithredu. Yn gynyddol, mae ysgolion yn adolygu'r cofnodion y maent yn eu cadw o fwlio ac yn mynd yn fwy penodol yn y ffordd y maent yn cofnodi achosion.

63 Hyd yn oed mewn ysgolion sydd â strategaethau cadarn ac effeithiol i fynd i'r afael ag unrhyw achos o fwlio disgyblion sy'n agored i niwed, yn aml, nid oes dealltwriaeth gyffredin, ar y cyd gan bob un o'r staff o bwysigrwydd y nodweddion gwarchodedig a'u goblygiadau cyfreithiol, er enghraifft wrth fonitro ac atal achosion o fwlio.

64 Mae'r rhan fwyaf o ysgolion yn adrodd i lywodraethwyr yn dymhorol am achosion ymddygiad ac achosion hiliol, ond nid yw pob adroddiad yn delio â bwlio fel mater ar wahân. Mewn rhai ysgolion, mae llywodraethwyr yn gofyn am y wybodaeth hon ac yn holi cwestiynau heriol addas mewn perthynas ag ymddygiad disgyblion.

65 Mae’r astudiaeth achos ganlynol o Ysgol Gynradd Marlborough, Caerdydd, yn dangos y modd y mae dull ysgol gyfan cynhwysfawr o ddelio â bwlio wedi bod yn llwyddiannus wrth leihau nifer yr achosion o fwlio ac aildroseddu.

**Ysgol Gynradd Marlborough yn defnyddio dull strategol a chynhwysfawr o ddelio â bwlio**

**Cyd-destun**

Mae Ysgol Gynradd Marlborough yn gwasanaethu ardaloedd Pen-y-lan a’r Rhath yng Nghaerdydd. Mae 510 o ddisgyblion ar y gofrestr ar hyn o bryd, gan gynnwys 60 o ddisgyblion rhan-amser yn y meithrin. Mae gan yr ysgol 16 o ddosbarthiadau a dwy ystafell ddosbarth canolfan adnoddau arbenigol ar gyfer plant ag anawsterau dysgu cymedrol i gymhleth. Ar hyn o bryd, daw tua thraean o’r disgyblion o gefndiroedd ethnig lleiafrifol. Mae tua chwarter o’r disgyblion yn siarad Saesneg fel iaith ychwanegol. Ymhlith y disgyblion hyn, mae 26 o famieithoedd gwahanol. Mae gan ryw 12% o ddisgyblion hawl i gael prydau ysgol am ddim. Mae’r ysgol wedi nodi bod gan 10% o ddisgyblion anghenion dysgu ychwanegol, gan gynnwys 5% sydd â datganiad o anghenion addysgol arbennig.

**Strategaeth**

Roedd yr achosion o fwlio yr adroddwyd amdanynt yn gymharol isel, ond teimlai’r ysgol eu bod yn ymatebol yn hytrach na rhagweithiol wrth ddelio â phroblemau. Fe wnaeth staff ddatblygu ac arbrofi â dull mwy strategol o ddelio ag achosion o fwlio yr adroddwyd amdanynt. Mae hyn yn cynnwys rhaglen gynhwysfawr o wersi dosbarth, gemau ar y we, gwefan ar gyfer rhieni a deunyddiau ar gyfer athrawon.

Mae’r ysgol yn rhagweld unrhyw fwlio ac yn ceisio’i atal rhag dwysáu. Mae’n delio’n gadarn â’r holl achosion o fwlio.

**Gweithredu**

Fel rhan o’r strategaeth, sefydlodd yr ysgol dîm prosiect yn cynnwys athro dosbarth, cynorthwyydd addysgu a seicolegydd addysg.

Defnyddiodd yr ysgol holiadur ar-lein fel gwaelodlin i gael gwybod am ganfyddiadau a phrofiadau disgyblion o fwlio.

Cyflwynodd Prifysgol Bangor hyfforddiant mewn swydd ar gyfer tîm y prosiect a sesiwn gyfnos ar gyfer holl staff yr ysgol. Yn dilyn hyn, cyflwynodd tîm y prosiect ragor o hyfforddiant i staff yr ysgol a sesiwn ymwybyddiaeth ar gyfer rhieni a gofalwyr.

Mae’r ysgol yn defnyddio’r rhaglen ar draws cyfnod allweddol 2. Bob mis, caiff yr holl blant wers ar sut i adnabod bwlio a sut i ddelio ag ef, a beth i’w wneud os ydynt yn dioddef neu’n gweld bwlio.

Mae disgyblion a staff yn cyfeirio’r holl achosion yr adroddir amdanynt at dîm y prosiect. Mae tîm y prosiect yn cynnal yr ymchwiliad ac yn gweithio ar lefel unigol a lefel grŵp gyda’r dioddefwr a’r tramgwyddwyr. Maent yn sicrhau bod pob achos yn cael ei gofnodi’n briodol ac yn eu monitro i nodi patrymau neu bryderon.

**Deilliannau**

O ganlyniad i'r rhaglen, ceir:

- ymwybyddiaeth well o beth yw bwlio a sut i adrodd a delio â bwlio gan holl randdeiliaid yr ysgol;
- dull ysgol gyfan cyson o ddelio ag achosion o fwlio;
- gallu cynyddol yn yr ysgol wrth ddelio â dioddefwyr a thramgwyddwyr y bwlio, sy'n lleihau'r angen i ddibynnu ar asiantaethau allanol;
- dull ataliol, sy'n cynnwys ymyrryd yn gynnar i gynorthwyo plant i ffwrdd o fod yn fwlis posibl neu'n ddioddefwyr bwlio;
- pecyn cymorth cyfannol i ddioddefwyr bwlio sydd hefyd yn cysylltu â gwaith yr ysgol ar lythrennedd emosiynol ac i becynnau cymorth Rhaglen Cymorth i Fyfyrwyr (SAP);
- hyrwyddo gwrth-fwlio yn gyson ac effeithiol trwy'r cwricwlwm; a
- gostwng nifer yr achosion o fwlio yr adroddir amdanynt a chyfraddau aildroseddu.

## 5 Datblygiad ac agweddau staff

66 Mae llawer o ysgolion yn darparu hyfforddiant i staff ynghylch goresgyn bwlio a sut i helpu disgyblion i ddatblygu gallu i wrthsefyll bwlio. Mewn llawer o ysgolion, mae hyfforddiant yn tueddu i fod yn gyffredinol ac nid yw'n ymwneud yn benodol â'r nodweddion gwarchodedig. Mae eitem am fwlio yn aml yn ffurfio rhan o ddiwrnod hyfforddiant mewn swydd, yn enwedig ar ddechrau'r flwyddyn ysgol. Fodd bynnag, nid yw hyfforddiant ar ddelio â bwlio bob amser yn rhan o gyfnod ymsefydlu staff. Pan fydd staff yn cael hyfforddiant penodol, maent yn gweld hyn yn ddefnyddiol iawn wrth eu helpu i herio materion yn ymwneud â bwlio. Mae llawer o staff yn mynegi dymuniad am fwy o hyfforddiant a gwybodaeth ynglŷn â'r nodweddion gwarchodedig.

67 Yn aml, mae ysgolion yn cydnabod yr angen am ragor o hyfforddiant a chymorth am fwlio a'r nodweddion gwarchodedig fel ei gilydd, ond maent yn ei chael yn anodd dilyn hyfforddiant addas naill ai gan yr awdurdod lleol, consortia neu ddarparwyr allanol. Mae ysgolion yn adrodd am absenoldeb nodedig o hyfforddiant wyneb yn wyneb o ansawdd uchel ar gyfer staff, sy'n ymwneud yn arbennig â materion trawsrywiol. Mae rhai ysgolion yn defnyddio cynlluniau masnachol i helpu staff i gyflwyno gwersi sy'n gysylltiedig â'r nodweddion gwarchodedig. Ychydig iawn o ysgolion sy'n defnyddio deunyddiau arweiniad Llywodraeth Cymru 'Parchu Eraill' i godi ymwybyddiaeth staff am faterion a darparu hyfforddiant. Nid yw llawer o ysgolion yn ymwybodol o'u bodolaeth. Mae rhai ysgolion yn gwneud defnydd effeithiol o weithdai drama a grwpiau theatr i ddarparu gweithgareddau chwarae rôl i ddisgyblion lle gallant ymarfer, arbrofi ac archwilio eu hymateb i sefyllfaoedd o fwlio.

68 Yn gyffredinol, roedd staff yn yr arolwg yn teimlo'n llai hyderus ynghylch delio â materion yn gysylltiedig ag ailbennu rhywedd, er nad oeddent wedi dod ar draws hyn yn rheswm ar gyfer bwlio yn y rhan fwyaf o ysgolion. Mae'r rhan fwyaf o staff yn teimlo'n hyderus wrth ddelio ag iaith ragfarnllyd ac yn dweud y byddent yn trafod

materion yn agored gyda disgyblion. Mae ychydig iawn o staff yn anghyfforddus yn trafod materion rhywioldeb gyda'u disgyblion. Mewn ysgolion lle mae proffil uchel i barch am wahaniaethau unigol, mae staff ar y cyfan yn fwy hyderus yn siarad am faterion sy'n gysylltiedig â'r nodweddion gwarchodedig.

69 Mae'r cynnydd mewn bwlio seiber wedi creu mathau newydd o fwlio nad yw staff yn aml yn gyfarwydd â nhw. Nid yw llawer o staff yn ymwybodol o'r feddalwedd a ddefnyddir gan ddisgyblion i gyfathrebu â'i gilydd trwy ffonau symudol a gweithgareddau ar-lein, y tu mewn a'r tu allan i'r ysgol. Yn 2012, canfu adroddiad gan Ofcom ('Children and parents: Media use and attitudes in the nations') fod 80% o blant 5-15 oed yn defnyddio'r rhyngrwyd gartref. Mae technoleg yn rhan bwysig o fywydau plant a phobl ifanc erbyn hyn ac maent yn gwybod mwy amdani na rhai rhieni a staff. Yn yr arfer orau, mae staff yn dilyn hynt a helynt technoleg ac yn cynnal ymwybyddiaeth o'r feddalwedd a ddefnyddir gan ddisgyblion a'r potensial i'w chamddefnyddio.

70 Mae hyfforddiant staff mewn e-ddysgu a thechnoleg yn gyfle gwych i staff ddatblygu eu harfer eu hunain yn greadigol a chynorthwyo plant a phobl ifanc i'w defnyddio'n ddiogel a chyfrifol. Dylai ysgolion adolygu targedau a chyfleoedd datblygiad staff presennol, ac edrych ar gynnwys materion e-ddiogelwch fel elfen bwysig o dechnoleg ar gyfer addysg. Dylai ysgolion adolygu cyfleoedd hyfforddi a chymorth ar gyfer arweinwyr a llywodraethwyr ysgol hefyd, yn ogystal ag athrawon, staff cymorth a staff darpariaeth estynedig ysgolion.'[2]

71 Mae'r astudiaeth achos ganlynol yn esbonio'r modd y mae'r gwasanaeth seicoleg addysg yn Sir Ddinbych yn cynorthwyo staff, disgyblion a rhieni gyda gwybodaeth deilwredig am fwlio seiber a sut i'w atal.

**Gwasanaeth seicoleg addysg Sir Ddinbych yn cyflwyno hyfforddiant effeithiol am fwlio seiber**

**Cyd-destun**

Mae ysgolion yn Sir Ddinbych yn cael nifer gynyddol o geisiadau am gyngor gan y gwasanaeth seicoleg addysg (EPS) am y ffordd orau o reoli a datrys anghydfod yn seiliedig ar y rhyngrwyd sy'n digwydd rhwng disgyblion, yn enwedig anghydfod ar safleoedd rhwydweithio cymdeithasol.

Mae'r gwasanaeth seicoleg addysg yn cynorthwyo disgyblion ac ysgolion unigol pan fydd achosion o fwlio yn digwydd. Maent hefyd yn rhagweithiol wrth annog disgyblion a staff ysgolion i feddwl ynglŷn â'r modd y gall eu hymddygiad osgoi canlyniadau negyddol iddyn nhw eu hunain ac i bobl eraill.

Maent yn cydnabod pwysigrwydd gwella ymwybyddiaeth gymunedol a datblygu defnydd diogel o'r rhyngrwyd y tu allan i'r ysgol. Maent wedi hyfforddi rhieni, sefydliadau gwirfoddol a grwpiau cymunedol.

**Strategaeth**

Y nod allweddol yw addysgu pobl ynghylch defnyddio technoleg yn ddiogel a goblygiadau posibl peidio â gwneud hynny. Hyfforddodd aelodau o'r gwasanaeth

[2] Cymerwyd o Parchu Eraill: Bwlio Seiber: Llywodraeth Cymru 2011

seicoleg addysg gyda'r Ganolfan Camfanteisio ar Blant a'u Hamddiffyn Ar-lein (CEOPS) ac maent wedi datblygu eu harfer i sicrhau bod y wybodaeth a roddir i ddisgyblion, staff ysgolion a rhieni yn gyfoes ac yn cynrychioli defnydd newydd a chynyddol disgyblion o dechnoleg.

Mae tîm bach dynodedig o swyddogion cyswllt yr heddlu ysgolion yn gweithio gyda'r gwasanaeth seicoleg addysg i gynnig mwy o fanylion ar yr agweddau cyfreithiol a chyfrifoldebau pawb sy'n defnyddio technoleg.

**Gweithredu**

Mae sesiynau hyfforddi teilwredig ar gyfer disgyblion ac oedolion ynghylch agweddau cadarnhaol ar ddefnyddio technoleg, yn darparu cyd-destun i archwilio peryglon posibl camddefnyddio rhwydweithio cymdeithasol.

Mae deunyddiau hyfforddi pwerus iawn a ddarperir gan CEOPS yn dangos yn effeithiol effaith camddefnyddio technoleg ar bobl ifanc.  Mae hyfforddwyr yn annog disgyblion i ystyried eu defnydd eu hunain o dechnoleg yng ngoleuni eu hyfforddiant. Maent yn dangos sut i ddiweddaru'r gosodiadau preifatrwydd ar eu cyfrifiaduron a'u ffonau symudol yn rheolaidd, ac yn esbonio goblygiadau peidio â gwneud hynny.

Mae negeseuon wedi'u cynllunio i fodloni anghenion a dealltwriaeth grwpiau oedran penodol.  Mae'r holl sesiynau yn ymdrin â gwneud 'ffrindiau' ar y rhyngrwyd a bwlio seiber.

Nod yr hyfforddiant a ddarperir ar gyfer oedolion yw cynyddu eu hyder wrth siarad â phlant a phobl ifanc am y safleoedd rhyngrwyd y maent yn eu defnyddio a chynnig cyngor ac arweiniad.

Mae'r pecyn hyfforddi yn datblygu'n barhaus, yn gyflym yn aml, wrth i dechnoleg gael ei diweddaru a safleoedd rhyngrwyd newydd yn ymddangos.  Trwy siarad â disgyblion a gwrando arnynt, gall y gwasanaeth seicoleg addysg ddysgu o'u profiadau a'u gwybodaeth.  Maent yn annog oedolion eraill i wneud yr un fath.  Mae'n amlwg fod camddefnydd disgyblion o gyfryngau cymdeithasol yn digwydd yn bennaf yn sgil naïfrwydd a diffyg gwybodaeth am y canlyniadau posibl.

Mae gwefan gwrth-fwlio effeithiol gan yr awdurdod lleol, ond mae wrthi'n ei diweddaru ac yn lansio polisi gwrth-fwlio newydd i gynorthwyo ysgolion i addasu eu polisi gwrth-fwlio eu hunain pan fydd angen.  Bydd penodi hyrwyddwr gwrth-fwlio ym mhob ysgol  a gwneud rhagor o welliannau i'r gronfa ddata cofnodi gwrth-fwlio yn galluogi'r awdurdod i gofnodi cyfraddau achosion o fwlio yn ffurfiol a thargedu mentrau a chymorth yn briodol.

**Deilliannau**

Mae adborth llafar gan blant ac oedolion yn cadarnhau bod yr hyfforddiant hwn yn ddefnyddiol a buddiol.  Er enghraifft:

- dywedodd rhiant a fynychodd yr hyfforddiant fod ei phlentyn wedi cau ei safle rhyngrwyd i lawr ar ôl cael yr hyfforddiant;
- ar ddiwedd y sesiwn hyfforddi, dywedodd dau ddisgybl fod un ohonynt wedi dioddef camdriniaeth ar-lein.  Arweiniodd y datgeliad hwn at arestio dyn lleol yn y pen draw.  Daeth yn hysbys nad y disgybl hwn oedd yr unig un oedd wedi cael ei

gam-drin gan y dyn hwn; a
- dywedodd disgybl wrth ei athro ei fod, ar ôl ei hyfforddiant, yn mynd i wirio'r gosodiadau preifatrwydd ar gyfer ei frodyr a'i chwiorydd iau i sicrhau eu bod yn ddiogel.

Mae gan y gwasanaeth seicoleg addysg wybodaeth bod unigolion yn newid eu harferion i sicrhau eu bod yn fwy diogel ar-lein. Mae ysgolion yn mynd yn fwy rhagweithiol yn cynorthwyo'i gilydd i fynd i'r afael â materion sy'n codi.

## 6 Trefniadau clwstwr a phrosesau pontio

72 Mewn rhai clystyrau, mae ysgolion uwchradd a'r ysgolion cynradd sy'n eu bwydo yn cydweithio i nodi materion posibl mewn perthynas â'r nodweddion gwarchodedig wrth baratoi cynlluniau cydraddoldeb strategol. Yn yr arfer orau, maent yn gweithio gyda'i gilydd i nodi materion cyffredin a rhannu gwybodaeth ac arbenigedd defnyddiol o ran eu profiad wrth oresgyn gwahaniaethu. Fodd bynnag, yn yr ysgolion yr ymwelwyd â nhw, ceir ychydig iawn o achosion lle mae ysgolion sy'n bwydo ac ysgolion sy'n derbyn yn gweithio tuag at yr un amcanion cydraddoldeb strategol. Mewn llawer o glystyrau, mae ysgolion yn llunio cynlluniau cydraddoldeb strategol yn annibynnol ar ysgolion lleol eraill, heb lawer o ymgynghori, os o gwbl. Yn yr ysgolion hyn, nid yw arweinwyr a rheolwyr yn gwybod p'un a ydynt yn rhannu amcanion cydraddoldeb strategol ag ysgolion lleol eraill ai peidio. Nid ydynt yn manteisio ar gyfleoedd i rannu gwybodaeth ac arbenigedd mewn perthynas â'r nodweddion gwarchodedig neu i weithio gyda'i gilydd i hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth.

73 Mae gan lawer o glystyrau o ysgolion drefniadau da i gynorthwyo disgyblion sy'n trosglwyddo o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd ar ddiwedd cyfnod allweddol 2. Mae'r rhan fwyaf o ysgolion cynradd yn adnabod eu disgyblion yn dda ac yn nodi disgyblion sy'n agored i niwed cyn iddynt drosglwyddo. Mae llawer o ysgolion uwchradd yn darparu ymweliadau pontio ychwanegol ar gyfer disgyblion sy'n agored i niwed, i'w galluogi i ddod yn gyfarwydd â staff allweddol sy'n gallu eu cynorthwyo os bydd materion yn codi. Mewn llawer o glystyrau, caiff gwybodaeth ei rhannu'n arbennig o dda am ddisgyblion ar y gofrestr anghenion addysgol arbennig.

74 Er enghraifft, yn Ysgol Gynradd Townhill, Abertawe, mae disgyblion sy'n trosglwyddo i Ysgol Dylan Thomas yn treulio wythnos yno yn ystod tymor yr haf. Mae staff o Ysgol Townhill yn mynd gyda nhw am wythnos lawn, ac mae hyn yn helpu disgyblion i fagu hyder mewn sefyllfa newydd a dod yn gyfarwydd â'r ysgol newydd a'i harferion. O ganlyniad, mae disgyblion yn cael llai o broblemau yn gysylltiedig â throsglwyddo ac mae nifer yr achosion o fwlio yn gostwng.

75 Ychydig iawn o achosion a adroddir amdanynt a geir o ddisgyblion yn trosglwyddo o ysgolion eraill yn benodol ar sail bwlio mewn perthynas â'r nodweddion gwarchodedig yn ystod y flwyddyn ysgol. Mae ychydig iawn o ysgolion wedi rhoi rhaglen gymorth benodol ar waith i ymateb i'r sefyllfa hon.

76 Yn Ysgol Gynradd Mount Stuart, Caerdydd, mae staff yn darparu lefel uchel o gymorth ar gyfer disgyblion sy'n newydd i'r gymuned. Maent yn sicrhau bod gan ddisgyblion 'gyfaill' sydd â'r un iaith a thraddodiad diwylliannol lle bynnag y bo modd. Mae hyn yn sicrhau bod disgyblion yn ymgynefino'n gyflym a'u bod yn cael cyfleoedd i gyfleu unrhyw bryderon yn eu hiaith eu hunain.

77 Mae'r astudiaeth achos ganlynol yn dangos y modd y mae disgyblion yn Ysgol Gyfun Dŵr-y-Felin yn ymgynefino'n gyflym mewn ysgol newydd a'u bod yn hyderus i roi gwybod am achosion o fwlio o ganlyniad i systemau pontio a threfniadau mentora cyfoedion.

**Trefniadau pontio effeithiol yn Ysgol Dŵr-y-Felin**

**Cyd-destun**

Ysgol gyfun gymysg 11-16 oed yng Nghastell-nedd yw Ysgol Gyfun Dŵr-y-Felin. Mae tua 1,070 o ddisgyblion ar y gofrestr, ac mae gan ryw 13% ohonynt hawl i gael prydau ysgol am ddim. Mae'r ysgol yn nodi bod gan ryw 15% o ddisgyblion anghenion dysgu ychwanegol. Saesneg yw mamiaith bron pob un o'r disgyblion ac mae Saesneg yn iaith ychwanegol i ryw 3% o ddisgyblion.

**Strategaeth**

Mae uwch reolwyr yn rhoi pwys mawr ar bontio llwyddiannus. Maent yn credu bod disgyblion sy'n ymgynefino'n gynnar ar ôl trosglwyddo i'r ysgol uwchradd, ac sy'n teimlo'n ddiogel a hapus, yn gwneud cynnydd da. Mae gan yr ysgol bartneriaethau agos gyda'i hysgolion cynradd clwstwr. Mae penaethiaid yn gweithio gyda'i gilydd yn bwrpasol i sicrhau bod trefniadau pontio yn rhagweithiol, yn fanwl a chadarn a'u bod yn addas ar gyfer anghenion pob dysgwr. Maent yn rhoi sylw penodol i anghenion disgyblion sy'n agored i niwed ac yn datblygu strategaethau ychwanegol i gynorthwyo'r disgyblion hyn yn ystod y cyfnod pontio.

**Gweithredu**

Mae pennaeth cynorthwyol yn gyfrifol am y broses bontio. Bob mis Medi, mae'n ymweld â phob ysgol gynradd gyda'r pennaeth i gyfarfod â rhieni a disgyblion. Trwy gyswllt â'r penaethiaid ysgolion cynradd, mae'n trefnu'r cyfarfodydd ar amser sy'n gyfleus i'r naill a'r llall er mwyn i gynifer o rieni ag y bo modd allu mynychu. Yn 2013, mynychodd tua 80% o rieni. Yn y cyfarfod hwn, mae uwch staff yn rhoi cymaint o wybodaeth ag y bo modd i rieni am yr ysgol a'r broses bontio. Mae hyn yn rhoi cyfle iddynt amlinellu disgwyliadau'r ysgol a chyflwyno rhai o'r polisïau ysgol gyfan, fel y polisi ymddygiad, 'Parch', ac esbonio gwaith gwasanaethau cymorth disgyblion. Mae'n gyfle i ymateb i ymholiadau neu bryderon a godir gan rieni hefyd.

Ar ôl y cyfarfod, mae athrawon a disgyblion yn Ysgol Dŵr-y-Felin yn cynnig clwb ar ôl yr ysgol i ddisgyblion ym Mlwyddyn 6. Maent yn gwahodd pob grŵp clwstwr i fynychu'r clwb ar ôl yr ysgol unwaith yr wythnos am chwe wythnos. Yn ystod y sesiynau, mae disgyblion yn cyfarfod â ffrindiau newydd, yn cyfarfod â staff ac yn dod yn gyfarwydd ag amgylchedd yr ysgol a'i chyfleusterau. Maent yn cymryd rhan mewn ystod o weithgareddau, fel adeiladu tîm, chwaraeon a defnyddio technoleg gwybodaeth.

Yn ychwanegol, mae staff yn trefnu ystod o ddiwrnodau pontio ac mae sawl aelod o staff o Ysgol Dŵr-y-Felin yn ymweld â phob un o'r ysgolion partner yn ystod y flwyddyn. Pan fydd angen, rhoddir cyfleoedd ychwanegol i ddisgyblion sy'n agored i niwed a'u rhieni ymweld â'r ysgol.

Ar y cyd, mae athrawon cynradd ac uwchradd yn nodi disgyblion a allai fod yn agored i niwed ym mhob un o'r ysgolion cynradd sy'n bwydo. Caiff disgyblion Blwyddyn 10 sy'n dymuno hyfforddi fel mentoriaid eu dewis yn ofalus. Gall disgyblion drafod pryderon gyda'u mentoriaid yn ystod cyfarfodydd cofrestru wythnosol. Mae cwnselwr yr ysgol yn monitro gwaith y mentoriaid yn rheolaidd, gan wirio'n benodol nad yw eu rôl yn rhy feichus a'u bod yn rhannu unrhyw wybodaeth berthnasol.

**Deilliannau**

Mae disgyblion Blwyddyn 6 yn cyrraedd eu hysgol newydd yn teimlo'n hyderus eu bod yn adnabod staff a disgyblion. Maent yn gwybod eu ffordd o gwmpas, ble i fynd a phwy i'w weld os oes ganddynt unrhyw broblemau. Yn bwysicaf oll, mae'r fenter hon yn cael effaith gadarnhaol ar allu disgyblion i ddysgu a sicrhau'r cynnydd gorau posibl yn ystod wythnosau cyntaf bywyd mewn ysgol uwchradd. Mae staff yn nodi ac yn cynorthwyo disgyblion sy'n agored i niwed cyn bod unrhyw faterion yn codi. Mae disgyblion yn gwerthfawrogi'r cyswllt gyda'r mentoriaid cyfoedion ac yn aml yn chwilio amdanynt, fel y cyswllt cyntaf, os ydynt yn cael eu bwlio.

Mae'r broses bontio yn dechrau yn gynnar yn y flwyddyn academaidd pan fydd uwch staff yn darparu cyswllt cychwynnol gyda rhieni. O ganlyniad i'r cyfathrebu da hwn, mae llawer o rieni yn hyderus i gysylltu â'r ysgol cyn gynted ag y bydd eu plentyn yn cael problemau.

Wrth i ddisgyblion gyrraedd Ysgol Dŵr-y-Felin, mae disgyblion yn teimlo'n rhan o gymuned yr ysgol. Maent yn elwa ar y ffaith eu bod wedi cael amser i ddod i adnabod ei gilydd cyn dechrau yn yr ysgol newydd ac maent yn gwerthfawrogi profiadau ei gilydd yn well. O ganlyniad, mae disgyblion yn fwy goddefgar o'i gilydd.

## 7 Y gymuned ehangach

78 Rhai ysgolion yn unig sy'n profi tensiwn rhwng ethos yr ysgol a materion sy'n codi yn y gymuned ehangach. Mae agweddau ac ymddygiadau negyddol tuag at wahanol grwpiau a diwylliannau gan rai rhieni a gofalwyr yn peri problem i rai ysgolion o bryd i'w gilydd.

79 Mae llawer o ysgolion yn gweithio'n dda i gynnwys yr holl grwpiau cymunedol a'u gwneud yn ymwybodol o ethos yr ysgol. Mae ganddynt gysylltiadau agos â gwasanaethau cymorth a heddweision cymunedol sy'n eu helpu i atgyfnerthu gwaith yr ysgol yn y gymuned leol.

80 Er enghraifft, mae heddweision yn ymweld ag un ysgol gynradd gymunedol ddinesig tua theirgwaith yr wythnos. Maent yn siarad yn rheolaidd â disgyblion am bethau sydd wedi digwydd yn y gymuned, ac o ganlyniad, mae disgyblion yn eu gweld yn wynebau cyfeillgar sydd yno i'w helpu a'u cefnogi. Yn ddiweddar, bu pryder am ddiwylliant gangiau yn datblygu yn y gymuned. Mae staff yr ysgol a heddweision yn gweithio gyda'i gilydd i nodi disgyblion sydd mewn perygl o ymwneud â gangiau o bosibl. Maent yn cynnwys y tîm troseddau ieuenctid a'r tîm ymddygiad gwrthgymdeithasol i weithio gyda disgyblion ar raglen strwythuredig am beryglon a goblygiadau diwylliant gangiau. Dywed heddweision fod yr ysgol wedi cael dylanwad cadarnhaol wrth helpu i gael gwared ar y rhwystrau rhwng y gymuned a'r heddlu.

81 Mae rhai ysgolion yn cynnal digwyddiadau codi ymwybyddiaeth lle mae disgyblion yn gwneud cyflwyniadau ac yn dangos gwaith y maent wedi'i gynhyrchu i ddathlu amrywiaeth yn y gymuned a ledled y byd. Yn yr ysgolion hyn, mae gan ddisgyblion ddealltwriaeth dda o ddinasyddiaeth fyd-eang ac maent yn datblygu agweddau cadarnhaol tuag at gydraddoldeb ac amrywiaeth. Mae disgyblion yn hyderus wrth siarad â'u teulu ac aelodau o'r gymuned leol am oddefgarwch a pharch at wahaniaethau unigol.

82 Mae rhai ysgolion yn gwneud defnydd da o wasanaethau cymunedol i'w cynorthwyo i godi ymwybyddiaeth am amrywiaeth a chydraddoldeb. Maent yn ymgysylltu â sefydliadau lleol, rhanbarthol, cenedlaethol a rhyngwladol i ddarparu gwybodaeth benodol am y gwahanol nodweddion gwarchodedig. Mae llawer o ddisgyblion, yn enwedig mewn ysgolion uwchradd, yn gweld y dull arbenigol hwn yn ddefnyddiol. Mae'n cynnig man cyswllt iddynt os oes ganddynt unrhyw broblemau neu bryderon yr hoffent eu trafod.

83 Mae'r astudiaeth achos ganlynol yn amlygu'r modd y mae Ysgol Bassaleg yn defnyddio gwasanaethau cymunedol a gwasanaethau cwnsela yn effeithiol i gynorthwyo disgyblion sy'n agored i niwed.

**Gweithio effeithiol gyda gwasanaethau cymorth cymunedol yn Ysgol Bassaleg**

**Cyd-destun**

Ysgol uwchradd 11-19 oed ar gyrion Casnewydd yw Ysgol Bassaleg. Mae tua 1,750 o ddisgyblion ar y gofrestr ac mae tua 400 ohonynt yn mynychu'r chweched dosbarth. Mae gan ryw 8% o ddisgyblion hawl i gael prydau ysgol am ddim. Mae'r ysgol wedi nodi bod gan ryw 8% o ddisgyblion anghenion dysgu ychwanegol. Mae tua 10% o ddisgyblion o gefndir ethnig lleiafrifol. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn siarad Saesneg fel eu mamiaith.

**Strategaeth**

Mae'r ysgol wedi nodi angen cynyddol am gymorth cwnsela un i un ar gyfer unigolion sy'n cael anawsterau. Yn aml, caiff disgyblion eu cyfeirio yn sgil problemau bwlio neu ofid emosiynol.

**Gweithredu**

Mae'r ysgol yn gweithio'n agos gydag ystod o bartneriaid, gan gynnwys Teuluoedd yn Gyntaf, y Gwasanaeth Ieuenctid a'r awdurdod lleol, i ddarparu cwnselwyr a

gweithiwr ieuenctid. Mae swyddog cyswllt yr heddlu ar gyfer ysgolion lleol yn ymweld â'r ysgol yn rheolaidd, gan gyflwyno rhaglenni gwaith ac atgyfnerthu materion cymunedol perthnasol yn yr ysgol.

Mae'r cymorth hwn yn cynnwys:

- cynorthwyo'r ysgol i fynd i'r afael â materion lleol fel y maent yn digwydd, a allai gynnwys trosedd â chyllyll a gwaith i leihau tensiynau hiliol;
- cyfraniadau at raglen amrywiol o wasanaethau blwyddyn sy'n procio'r meddwl, gan gynnwys uned ddiweddar am drosedd casineb sy'n gysylltiedig ag anabledd, rhywedd, cyfeiriadedd rhywiol, hil neu grefydd;
- prosiect cyffuriau ac alcohol ar gyfer disgyblion Blwyddyn 10; a
- thestun 'babanod rhithwir', sy'n rhoi profiad o ofalu am faban am gyfnod i fyfyrwyr Blwyddyn 10.

**Deilliannau**

Caiff perthnasoedd eu sefydlu gydag ystod eang o wasanaethau arbenigol, sy'n arwain at gymorth o ansawdd uchel ar gyfer disgyblion a rhieni. Mae llawer o ddisgyblion yn elwa, yn enwedig y rhai sy'n fwy agored i niwed neu'r rhai y mae Saesneg yn iaith ychwanegol iddynt.

Mae'r cwnselwyr a'r gweithwyr ieuenctid yn priodoli eu llwyddiant i fod yn hygyrch, yn gweithio ar safle'r ysgol, ond yn annibynnol ar staff yr ysgol. Maent yn cynnal sgyrsiau agored a didwyll gyda phobl ifanc. Mae llawer o'r bobl ifanc yn ymweld â'r gwasanaeth hwn oherwydd bwlio neu broblemau emosiynol yn gysylltiedig â'r nodweddion gwarchodedig, er enghraifft os oes arnynt eisiau trafod eu rhywioldeb personol, bwlio ar-lein a homoffobig, perthnasoedd a beichiogrwydd. Mae'r ysgol yn monitro'r materion bras ac yn mynd i'r afael â'r rhain yn effeithiol trwy'r cwricwlwm a gwasanaethau ysgol.

84 Mae lleiafrif o ysgolion yn bryderus ynghylch amlygu materion amrywiaeth gan eu bod yn eu hystyried yn ddadleuol o bosibl. Mae'r ysgolion hyn dim ond yn mynd i'r afael â phroblemau wrth iddynt godi yn hytrach na'u cynnwys yn y cwricwlwm.

85 Mewn ychydig iawn o ysgolion, yn enwedig y rhai sy'n derbyn disgyblion o wahanol ddalgylchoedd ar draws ardal eang, nid yw arweinwyr a rheolwyr yn aml yn ymateb i faterion lleol ehangach a thensiynau y maent yn ystyried eu bod yn effeithio ar gyfran fach o ddisgyblion yn unig.

86 Mewn rhai ysgolion, mae camddealltwriaeth am wahaniaethau diwylliannol yn arwain at densiynau cymunedol. Er enghraifft, mewn un ysgol, roedd rhiant a oedd wedi dod i Gymru yn ddiweddar yn cofleidio a chusanu ffrindiau dosbarth ei phlentyn ar ddechrau'r diwrnod ysgol. Roedd rhieni eraill yn gweld hyn yn amhriodol. Gweithredodd yr ysgol yn effeithiol fel cyfryngwr a threfnu cyfarfod lle gallai cynrychiolwyr rhieni esbonio'u pryderon i'r rhiant newydd. Wedi iddynt esbonio'u pryderon a'u disgwyliadau, lleihaodd y tensiynau ac fe gafodd y rhiant newydd ei derbyn a'i chynnwys.

87 Mae'r astudiaeth achos ganlynol yn dangos y modd y mae Ysgol Gynradd Maendy yn gweithio'n effeithiol gyda rhieni ac aelodau o'r gymuned leol i fynd i'r afael â phryderon ynghylch materion diwylliannol.

**Ysgol Gynradd Maendy yn hyrwyddo dealltwriaeth o hil yn llwyddiannus mewn tirwedd ddiwylliannol sy'n newid**

**Cyd-destun**

Mae Ysgol Gynradd Maendy yng Nghasnewydd. Mae'r ysgol yn darparu ar gyfer disgyblion rhwng tair ac un ar ddeg oed. Mae tua 430 o ddisgyblion ar y gofrestr ar hyn o bryd, gan gynnwys tua 64 o ddisgyblion yn y dosbarthiadau meithrin. Mae gan ryw 32% o ddisgyblion hawl i gael prydau ysgol am ddim. Mae'r ysgol wedi nodi bod gan ryw 17% o ddisgyblion anghenion dysgu ychwanegol. Daw tua 89% o ddisgyblion o gefndir ethnig lleiafrifol. Caiff lleiafrif o ddisgyblion gymorth ar gyfer Saesneg fel iaith ychwanegol.

**Strategaeth**

Mae'r ysgol yn adnabyddus yn yr ardal am ei gwaith yn hyrwyddo cydlyniad cymunedol ac mae'n croesawu plant o gefndiroedd amlddiwylliannol. Yn draddodiadol, mae tua 85% o ddisgyblion wedi dod o gefndiroedd Asiaidd, gan amlaf Pacistanaidd neu Fangladeshaidd. Yn ddiweddar, mae poblogaeth yr ysgol wedi newid. Ar hyn o bryd, daw chwarter o boblogaeth yr ysgol o deuluoedd o Ddwyrain Ewrop, a'r grŵp mwyaf yw Roma. Mae medrau'r disgyblion hyn sy'n cyrraedd yr ysgol yn gyfyngedig mewn Saesneg. Mae'r ysgol wedi nodi bod angen mynd i'r afael â'r newid diwylliannol o ran y disgyblion y mae'n eu derbyn. Mae arweinwyr wedi gweithio gyda'i hail genhedlaeth o rieni Asiaidd i ddatblygu dealltwriaeth o ddiwylliant a thraddodiadau Romani.

**Gweithredu**

Mae'r ysgol yn trefnu boreau coffi a sesiynau gwybodaeth i rieni o lawer o wahanol ddiwylliannau. Mae cyfieithwyr wrth law i gynorthwyo rhieni mewn saith iaith wahanol.

Ochr yn ochr â gwaith i ddathlu diwylliant a gwyliau Asiaidd, mae'r ysgol wedi gweithio i ddatblygu dealltwriaeth ar y cyd o ddiwylliant Romani. Roedd gŵyl ddiweddar yn cynnwys ceffyl a 'varda'[3] yn ymgartrefu ar gae'r ysgol. Mynychodd disgyblion weithdai i archwilio agweddau ar ddiwylliant Romani, gan gynnwys arteffactau a thraddodiadau.

Yn niwylliant Romani, caiff bechgyn yn arbennig eu hannog i ddatrys eu dadleuon eu hunain yn gorfforol, ac ysgwyd llaw wedyn. Nid yw hyn yn dderbyniol yn yr ysgol. Felly, mae'r ysgol yn esbonio cyfiawnder adferol i rieni a disgyblion fel eu bod yn dysgu bod disgyblion, gyda chymorth oedolion, yn siarad a mynegi eu teimladau i ddatrys anghydfod. O bryd i'w gilydd, bu angen i arweinwyr yr ysgol alw ar rieni i ddod i'r ysgol i'w hatgoffa'n benodol am ei rheolau ar ddatrys anghydfod. Mae gan yr

[3] Wagen neu garafán sipsi

ysgol systemau clir a chyson i ddelio ag achosion o fwlio a adroddir neu a welir. Pan fydd achosion yn peri pryder, mae'r ysgol yn gwahodd rhieni i'r ysgol i drafod ymddygiad eu plentyn. Mae'r ysgol yn darparu cyfieithwyr i gynorthwyo'r cyfarfodydd hyn.

**Deilliannau**

Mae'r ysgol wedi sefydlu ethos cyfoethog a chynhwysol sy'n dathlu cydraddoldeb ac amrywiaeth yn dda. Mae'r grŵp Saesneg i Siaradwyr Ieithoedd Eraill (SSIE) yn cynorthwyo rhieni i ddatblygu dealltwriaeth o system addysg Cymru yn effeithiol. Mynychodd naw deg saith o rieni y bore gwybodaeth diweddaraf.

Mae gan ddisgyblion gwricwlwm cyfoethog ac amrywiol sy'n cynnwys agweddau ar lawer o wahanol ddiwylliannau a thraddodiadau.

Dywed disgyblion mai ychydig iawn o achosion o fwlio a geir. Maent yn hyderus y bydd staff yn datrys unrhyw achos o alw enwau neu ymosodedd corfforol yn gyflym ac yn effeithiol. Mae staff yn wybodus am y nodweddion gwarchodedig. O ganlyniad, maent yn agored a gonest wrth ddelio â disgyblion ac ymateb i'w cwestiynau a'u trafodaethau. Maent yn rhagweithiol wrth ddelio â bwlio.

88 Mae rhai ysgolion yn profi tensiynau rhwng addysgu am y nodweddion gwarchodedig a pharchu credoau diwylliannol a chrefyddol. Mae problemau'n aml yn codi mewn perthynas â chyfeiriadedd rhywiol a phartneriaeth sifil. Yn yr arfer orau, mae ysgolion yn trafod gyda llywodraethwyr, rhieni a chynrychiolwyr cymunedol ynghylch sut gall athrawon ymgorffori'r nodweddion gwarchodedig yn y cwricwlwm mewn ffordd sy'n galluogi'r ysgol i gyflawni ei dyletswyddau a pharchu credoau.

## Atodiad 1 – Sail y dystiolaeth

Mae'r canfyddiadau a'r argymhellion yn yr adroddiad hwn yn manteisio ar:

- ymweliadau ag ysgolion;
- cyfweliadau â grwpiau o ddisgyblion;
- cyfweliadau ag athrawon, staff cymorth a chynorthwywyr goruchwylio prydau;
- cyfweliad â chynrychiolydd awdurdod lleol;
- craffu ar ystod o ddogfennau'r ysgol gan gynnwys cynlluniau cydraddoldeb strategol, gwrth-fwlio, ymddygiad ysgolion a pholisïau e-ddiogelwch, adroddiadau i lywodraethwyr, cynlluniau datblygu ysgol, prosbectws ysgol, cofnodion hyfforddi staff a chofnodion o fwlio; a
- chyfweliadau â chynrychiolwyr cymunedol

Roedd y sampl o 21 o ysgolion yr ymwelwyd â nhw yn cynnwys ysgolion cyfrwng Saesneg a chyfrwng Cymraeg, ac ysgolion mewn ardaloedd gwledig a threfol. Roedd y sampl yn cynnwys wyth ysgol uwchradd, 12 ysgol gynradd ac un ysgol arbennig.  Yn ychwanegol, darparwyd dogfennau perthnasol gan saith ysgol, gan gynnwys eu cynllun cydraddoldeb strategol a pholisïau yn ymwneud â bwlio.  Mae'r ysgolion yn cynrychioli ystod o ddeilliannau arolygu.

Dyma oedd yr ysgolion yr ymwelwyd â nhw fel rhan o'r astudiaeth hon:

- Coleg Cymunedol Michaelston, Caerdydd
- Ysgol Bassaleg, Casnewydd
- Ysgol Gatholig yr Esgob Vaughan, Abertawe
- Ysgol Gyfun Dŵr-y-Felin, Castell-nedd Port Talbot
- Ysgol Gynradd Abertyleri, Blaenau Gwent
- Ysgol Gynradd Blaenhonddan, Castell-nedd Port Talbot
- Ysgol Gynradd Eastern, Castell-nedd Port Talbot
- Ysgol Gynradd Eveswell, Casnewydd
- Ysgol Gynradd Gymunedol Llangynidr, Powys
- Ysgol Gynradd Gymunedol Maendy, Casnewydd
- Ysgol Gynradd Gymunedol Townhill, Abertawe
- Ysgol Gynradd Hafod, Abertawe
- Ysgol Gynradd Llysweri, Casnewydd
- Ysgol Gynradd Marlborough, Caerdydd
- Ysgol Gynradd Mount Stuart, Caerdydd
- Ysgol Gynradd Treorci, Rhondda Cynon Taf
- Ysgol Gynradd Trerobart, Rhondda Cynon Taf
- Ysgol Maes Garmon, Sir y Fflint
- Ysgol Pen Coch, Sir y Fflint
- Ysgol Uwchradd Crucywel, Powys
- Ysgol Y Llys, Sir Ddinbych

Dyma oedd yr ysgolion a ddarparodd ddogfennau ar gyfer craffu arnynt:

- Ysgol Bryn Teg, Sir Gaerfyrddin
- Ysgol Gyfun Pen-coed, Pen-y-bont ar Ogwr
- Ysgol Gyfun Pontllanfraith, Caerffili
- Ysgol Gynradd Gymunedol Llaneurgain, Sir y Fflint
- Ysgol Gynradd Parc Acton, Wrecsam
- Ysgol Gynradd yr Holl Seintiau yr Eglwys yng Nghymru, Wrecsam
- Ysgol Iau Llangewydd, Pen-y-bont ar Ogwr

Darparodd awdurdod lleol Sir Ddinbych wybodaeth am ei fenter diogelwch ar fwlio seiber.

Fel rhan o'u hymchwil, cyfarfu tîm yr arolwg â grwpiau o ddisgyblion. Roedd y rhain yn cynnwys disgyblion sydd wedi dioddef bwlio yn gysylltiedig â'r nodweddion gwarchodedig. Roedd disgyblion yn barod i rannu eu profiadau o fwlio gyda'r tîm. Fodd bynnag, mae'n anodd darparu astudiaethau achos o brofiadau disgyblion heb nodi disgyblion unigol o bosibl.

## Atodiad 2 – Rhestr wirio gwrth-fwlio

### Arferion gwrth-fwlio

A yw'r ysgol:

- yn gwneud yn siŵr bod pob disgybl yn gwybod beth i'w wneud os ydynt yn dioddef bwlio;
- wedi creu diffiniad cytûn o fwlio sy'n cael ei ddeall yn glir gan gymuned yr ysgol;
- yn ymgynghori'n rheolaidd gyda grwpiau o ddisgyblion i gael darlun go iawn o raddau a natur bwlio yn yr ysgol;
- yn defnyddio ystod o ddulliau i gasglu safbwyntiau staff, disgyblion, rhieni a gofalwyr, ac yn cymryd camau priodol i ymateb iddynt;
- yn gwneud yn siŵr ei bod yn rhagweithiol wrth atal bwlio;
- yn meddu ar ystod o strategaethau i fynd i'r afael â bwlio seiber;
- yn ymgysylltu'n weithredol ag asiantaethau allanol i gynorthwyo disgyblion sy'n dioddef bwlio;
- yn darparu gwasanaethau cwnsela;
- yn gwneud yn siŵr bod goruchwyliaeth effeithiol rhwng gwersi, amser egwyl ac amser cinio;
- yn darparu lleoedd diogel ar gyfer grwpiau sy'n agored i niwed amser egwyl ac amser cinio;
- yn arddangos manylion ynghylch ble mae cymorth ar gael yn yr ysgol, a manylion am linellau cymorth lleol a chenedlaethol; ac
- yn rhoi cyfleoedd i ddisgyblion gymryd cyfrifoldeb, er enghraifft trwy systemau cyfeillion neu gymorth cyfoedion?

A yw staff:

- yn meddu ar ddealltwriaeth glir o beth i'w wneud i atal bwlio; ac
- yn gwybod pa gamau i'w cymryd pan fydd bwlio'n digwydd?

### Ethos

A yw'r ysgol:

- yn meddu ar ethos cryf sy'n hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth; ac
- yn meddu ar strategaethau i fynd i'r afael â phob math o fwlio wedi'i ysgogi gan ragfarn?

### Cwricwlwm

A yw gwasanaethau, gwersi a gweithgareddau:

- yn gwneud yn siŵr bod disgyblion yn deall beth yw bwlio yn ei wahanol ffurfiau, ei effaith a rolau'r rhai sy'n gysylltiedig ag ymddygiad bwlio, gan gynnwys y rhai sy'n bresennol ar y pryd;
- yn datblygu medrau personol, cymdeithasol ac emosiynol disgyblion, gan gynnwys cadernid i'w helpu i ddelio â bwlio yn effeithiol;

- yn atgyfnerthu negeseuon ynghylch beth i'w wneud os yw disgyblion yn dioddef bwlio; ac
- yn gwneud disgyblion yn ymwybodol o bwy y gallant droi ato i gael cymorth?

**Polisïau a gweithdrefnau**

A yw'r ysgol:

- yn gwybod pryd mae'n briodol i roi gwybod am ymddygiad bwlio fel trosedd neu bryder ynghylch amddiffyn plant;
- yn enwebu llywodraethwr sy'n arwain ar wrth-fwlio;
- yn adolygu ei pholisïau ymddygiad a gwrth-fwlio bob blwyddyn a'u gwneud yn hygyrch i bawb;
- yn gwneud yn siŵr bod yr holl bolisïau sy'n gysylltiedig ag ymddygiad a gwrth-fwlio yn gyson yn eu negeseuon, er enghraifft, e-ddiogelwch a defnydd o gludiant ysgol;
- yn meddu ar gynllun cydraddoldeb strategol sy'n cynnwys amcanion cydraddoldeb a ystyriwyd yn dda ac sy'n berthnasol i anghenion yr ysgol;
- yn gweithio tuag at ei hamcanion cydraddoldeb i leihau bwlio; ac
- yn ei gwneud yn amlwg i rieni ynglŷn â sut i godi pryder neu gwyno os ydynt yn poeni am fwlio, neu'n pryderu nad yw'r ysgol wedi mynd i'r afael â bwlio yn effeithiol?

A yw staff:

- yn cofnodi achosion o fwlio yn unol â diffiniadau cytûn ac yn dadansoddi cofnodion ar gyfer patrymau (unigolion / grwpiau, nodweddion gwarchodedig, mathau, lleoedd ac amseroedd) ac yn cymryd y camau priodol?

**Datblygu a hyfforddi staff**

A yw'r ysgol:

- yn gwneud defnydd effeithiol o ymchwil a gwybodaeth berthnasol, fel canllawiau Llywodraeth Cymru 'Parchu Eraill' i ddarparu hyfforddiant a chymorth effeithiol i staff?

A yw staff:

- yn cael hyfforddiant gwrth-fwlio rheolaidd (yr holl staff addysgu a staff nad ydynt yn addysgu);
- yn meddu ar ddealltwriaeth glir o'r nodweddion gwarchodedig a'u goblygiadau cyfreithiol; ac
- yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am fathau newydd o fwlio, fel bwlio seiber?

**Trefniadau clwstwr a phrosesau pontio**

A yw'r ysgol:

- yn cydweithio ag ysgolion eraill i nodi materion cyffredin posibl sy'n gysylltiedig â'r nodweddion gwarchodedig;

- yn rhannu gwybodaeth ac arbenigedd defnyddiol wrth oresgyn gwahaniaethu a bwlio gydag ysgolion eraill; ac
- yn cyd-drafod i nodi a darparu cymorth ychwanegol i ddisgyblion sy’n agored i niwed wrth iddynt drosglwyddo i ysgol arall?

**Y gymuned ehangach**

A yw’r ysgol:

- yn cymryd cyfrifoldeb am weithio gyda’r gymuned ehangach i weithredu pan fydd bwlio yn digwydd y tu allan i’r ysgol;
- yn mynd i’r afael â bwlio sy’n digwydd ar deithiau i’r ysgol ac oddi yno;
- yn mynd i’r afael â bwlio sy’n digwydd pan fydd disgyblion yn cymryd rhan mewn unrhyw weithgaredd yn yr ysgol;
- yn mynd i’r afael â bwlio seiber yn yr ysgol a’r tu allan fel ei gilydd; ac
- yn gweithio gyda rhieni/gofalwyr a’r gymuned leol, gan gynnwys yr heddlu, i gynnal ymwybyddiaeth o densiynau lleol ac yn gweithredu’n rhagweithiol i’w lleihau?

# Atodiad 3 – Ymchwil a chyfeiriadau

## Rhai dyfyniadau o ymchwil

“Er gwaethaf y dystiolaeth galonogol sy’n awgrymu bod achosion o fwlio yn gostwng yng Nghymru, mae niferoedd mawr o ddisgyblion yn dioddef bwlio ac mae cyfran fach o ddisgyblion ym Mlynyddoedd 6, 7, a 10[4] yn dioddef bwlio sy’n aml yn rheolaidd a chyson dros gyfnodau hir. Roedd disgyblion sy’n dioddef bwlio rheolaidd a chyson hefyd yn llai hyderus y gallai eu hysgol eu helpu, pe baent yn cael eu bwlio. Roedd hyn yn ganfyddiad cyson ar draws gwahanol fathau o ysgolion ac mae’n awgrymu bod angen i bob ysgol nodi ffyrdd mwy effeithiol o leihau’r bwlio rheolaidd a chyson hwn a chynorthwyo’r disgyblion hyn.” (Arolwg o Nifer a Mynychder Achosion o Fwlio Mewn Ysgolion yng Nghymru, Prif Adroddiad: Uned Pobl a Gwaith, 2010)

“Mae’n glir fod bwlio yn seiliedig ar hunaniaeth yn broblem sylweddol i gyfran fawr o blant. Mae’r astudiaethau a adolygwyd yn egluro’r modd y mae unrhyw nodwedd unigol sy’n gwneud plentyn yn wahanol i weddill ei grŵp cyfoedion yn gallu cynyddu’r risg o fwlio, gan amrywio o edrych neu ymddwyn yn wahanol i arddel credoau personol neu grefyddol sy’n ei wneud yn wahanol i weddill ei grŵp cyfoedion. P’un a yw plentyn yn cael ei fwlio oherwydd ei hil, cyfeiriadedd rhywiol neu unrhyw nodwedd bersonol arall, mae ymchwil yn dangos bod effeithiau cael eich bwlio yr un fath, gan achosi problemau tymor byr a thymor hir yn seicolegol, yn gymdeithasol neu’n academaidd.” (Prevention and response to identity-based bullying among local authorities in England, Scotland and Wales: Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, 2010)

“Mae dros hanner (55%) y bobl ifanc lesbiaidd, hoyw a deurywiol yn dioddef bwlio homoffobig yn ysgolion Prydain. Mae tri o bob pump o ddisgyblion lesbiaidd, hoyw a deurywiol sy’n dioddef bwlio homoffobig yn dweud bod yr athrawon sy’n dyst i’r bwlio byth yn ymyrryd. Mae bron un o bob pedwar (23%) o bobl ifanc lesbiaidd, hoyw a deurywiol wedi ceisio lladd eu hunain ar ryw adeg. Mae dros hanner (56%) y bobl ifanc hoyw yn niweidio’u hunain yn fwriadol. Nid yw dros hanner (54%) y bobl ifanc lesbiaidd, hoyw a deurywiol yn teimlo bod oedolyn yn yr ysgol y gallant siarad ag ef/â hi ynglŷn â bod yn hoyw. Mae traean (32%) o ddisgyblion hoyw sy’n dioddef bwlio homoffobig yn newid eu cynlluniau ar gyfer addysg yn y dyfodol o’r herwydd.” (The School Report: Stonewall 2012)

“Rhoddwyd sylw cymharol fach mewn ymchwil i fwlio yn sgil anabledd. Fodd bynnag, ers y 1990au, mae astudiaethau wedi dangos y tebygolrwydd cynyddol y bydd plant a phobl ifanc anabl yn cael eu bwlio, o gymharu â’u cyfoedion nad ydynt yn anabl.” (Nabuzoka a Smith 1993; Dawkins 1996). “Mae ymchwil diweddar wedi tueddu i ganolbwyntio ar anableddau unigol, ond mae wedi cadarnhau ymhellach fod plant a phobl ifanc anabl yn wynebu mwy o risg o gael eu herlid. Mae adolygiadau diweddar o ganfyddiadau ymchwil yn awgrymu bod bwlio yn sgil bod yn agored i niwed i’w weld ar draws pob math o anabledd.” (Mishna, 2003; Smith a Tippett, 2006).

---

[4] Defnyddiodd yr arolwg holiaduron hunanlenwi, ac fe’u llenwyd gan ddisgyblion ym Mlynyddoedd 4, 6, 7 a 10 mewn ysgolion cyfranogol rhwng Ebrill 2009 a Gorffennaf 2009. O ran cyfanswm, fe wnaeth 7,448 o ddisgyblion o 167 o ysgolion a phump o unedau cyfeirio disgyblion (UCDau) gymryd rhan yn yr arolwg.

Yn 2010, fe wnaeth ymchwil a gynhaliwyd am ddisgyblion rhwng 14 ac 19 oed gan yr Adran Addysg ddatgan: “Un o’r canfyddiadau pwysicaf yn yr ymchwil hwn oedd y modd y mae gan fwlio gysylltiad â chyrhaeddiad. Mae’r dadansoddiad yn dangos yn glir, hyd yn oed ar ôl addasu ar gyfer ffactorau pwysig eraill, bod cyrhaeddiad addysgol ar lefel TGAU gryn dipyn yn is os dywedodd yr unigolyn ifanc ei fod wedi cael ei fwlio rhwng 14 ac 16 oed. Roedd hyn yn wir iawn am bobl ifanc a oedd wedi cael eu gorfodi i roi arian neu eiddo, ac am bobl ifanc a oedd wedi cael eu heithrio yn gymdeithasol. Trwy dargedu’r bobl ifanc hynny sydd mewn mwy o berygl o gael eu bwlio, mae’n amlwg bod cyfle nid yn unig i gynyddu eu lles uniongyrchol, ond eu cyrhaeddiad yn 16 oed hefyd a’u rhagolygon ar gyfer y dyfodol o ganlyniad.” (Characteristics of Bullying Victims in Schools: DFE 2010)

## Cyfeiriadau

A National approach to Anti-Bullying for Scotland's Children and Young People: Scottish Government, 2010

Arolwg o Nifer a Mynychder Achosion o Fwlio Mewn Ysgolion yng Nghymru, Prif Adroddiad: Uned Pobl a Gwaith, 2010

Cyfle Cyfartal ac Amrywiaeth mewn Ysgolion:  Estyn, 2005

Deddf Cydraddoldeb 2010

Adroddiad y Prif Weinidog ar roi'r Ddyletswydd Cydraddoldeb i Bobl Anabl ar Waith: Llywodraeth Cynulliad Cymru, Rhagfyr 2008

No Place for Bullying:  Ofsted, 2012

Prevention and response to identity-based bullying among local authorities in England, Scotland and Wales:  Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, 2010

Hyrwyddo Cydraddoldeb i Bobl Anabl mewn Ysgolion: Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2007

Parchu Eraill: Trosolwg Gwrth-fwlio:  Llywodraeth Cymru, 2011

Parchu Eraill: Bwlio ar sail hil, crefydd a diwylliant:  Llywodraeth Cymru, 2011

Parchu Eraill: Bwlio sy'n ymwneud ag anghenion addysgol arbennig ac anableddau: Llywodraeth Cymru, 2011

Parchu Eraill: Bwlio seiber:  Llywodraeth Cymru, 2011

Parchu Eraill: Bwlio homoffobig:  Llywodraeth Cymru, 2011

Parchu Eraill: Bwlio rhywiaethol, rhywiol a thrawsffobig:  Llywodraeth Cymru, 2011

Adolygiad o Gynlluniau Cydraddoldeb Anabledd ac arfer mewn ysgolion ac unedau cyfeirio disgyblion:  Estyn, 2011

Mynd i'r afael â bwlio mewn ysgolion:  Estyn, 2005

Effaith polisïau cydraddoldeb hiliol ysgolion:  Estyn, 2009

The nature and extent of pupil bullying in schools in the north of Ireland:  RSM McClure Watters, 2011

The School Report:  Stonewall, 2012

## Geirfa

| | |
|---|---|
| **Ailbennu rhywedd** | Y broses pan fydd unigolyn yn newid ei nodweddion corfforol, rhywiol trwy weithredoedd meddygol fel llawdriniaeth neu driniaeth hormonau |
| **Bwlio homoffobig** | Pan fydd pobl yn ymddwyn neu'n siarad mewn ffordd sy'n gwneud i rywun deimlo ei fod yn cael ei fwlio oherwydd ei rywioldeb gwirioneddol neu ganfyddedig |
| **Bwlio seiber** | Defnyddio cyfathrebu electronig i fwlio unigolyn, yn nodweddiadol trwy anfon negeseuon o natur frawychus neu fygythiol |
| **Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn** | Mae Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) yn gytundeb hawliau dynol rhyngwladol sy'n caniatáu set gynhwysfawr o hawliau i bob plentyn a pherson ifanc (17 oed ac yn iau). Ymunodd y DU â'r confensiwn ar 19 Ebrill 1990 a'i gadarnhau ar 16 Rhagfyr 1991, a daeth i rym ar 15 Ionawr 1992. Mae'r confensiwn yn rhoi dros 40 o hawliau sylweddol i blant a phobl ifanc, gan gynnwys yr hawl i:<br>• fesurau a chymorth amddiffyn arbennig<br>• cyfle i fanteisio ar wasanaethau fel addysg a gofal iechyd<br>• datblygu eu personoliaethau, eu galluoedd a'u doniau cystal ag y bo modd<br>• tyfu i fyny mewn amgylchedd o hapusrwydd, cariad a dealltwriaeth<br>• cael gwybod am eu hawliau a mynd ati i'w cyflawni mewn modd hygyrch a gweithredol. |
| **Datganiad cenhadaeth** | Brawddeg fer neu baragraff byr a ddefnyddir gan ysgol i esbonio'i nodau craidd mewn termau syml a chryno |
| **Stereoteipio rhywedd** | Bychanu rhywun oherwydd ei ryw/rhyw neu beidio â meddwl ei fod/bod yn gallu gwneud rhywbeth oherwydd ei fod/bod naill ai'n wryw neu'n fenyw |
| **Trawsffobig** | Dangos agweddau gwahaniaethol at bobl drawsrywiol, neu'u trin yn wahanol |
| **Trawsrywiol** | Mae trawsrywedd wedi cael ystyron gwahanol dros gyfnod, ac mewn gwahanol gymdeithasau. Ar hyn o bryd, fe'i defnyddir fel term cynhwysol sy'n disgrifio pawb y mae mynegiant eu rhywedd y tu allan i'r normau rhywedd nodweddiadol; er enghraifft, y rhai sy'n trawswisgo'n ysbeidiol am amrywiaeth o resymau yn ogystal â'r rhai sy'n byw yn barhaus y tu allan i normau rhywedd, weithiau gydag ymyrraeth feddygol neu hebddi. |

## Awdur yr adroddiad cylch gwaith a thîm yr arolwg

| | |
|---|---|
| Jane Rees AEM | Awdur yr adroddiad cylch gwaith / tîm yr arolwg |
| Fiona Arnison AEM | Tîm yr arolwg |
| Farrukh Khan AEM | Tîm yr arolwg |
| Anthony Mulcahy AEM | Tîm yr arolwg |
| Sw Roberts AEM | Tîm yr arolwg |